# Y BIGWN

CYF. 34 RHIF 89 IONAWR 2023 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

## Gyda'n Gilydd



Cyngerdd Nadolig Ysgol Glan Clwyd



Sioe Nadolig Uned dan 7 Ysgol Twm o'r Nant



Gogglebocs Cymru tud 11



Nerys Ann a'i Dysgwyr Cymraeg tud 12



Eiddwen Watkin tud 7



Ed. Brown tud 29

## Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr Y Bigwn

# Cyfarchion

Penblwydd Arbennig Dei Rich yn 70





Penblwydd Hapus i Mari yn 5 oed ac i Ifan yn 9 oed.Llawer o gariad gan Mam, Dad, Nain a Taid.



Llyfr Newydd er cof am R.M.(Bobi) Owen tud 8

## Diolch

Carwn ddiolch i fy nheulu, ffrindiau a nghymdogion am bob cyfarchiad ac anrhegion ar fy mlwydd arbennig. Cefais barti gwerthchweil yn y Clwb Rygbi i ddathlu a derbyn rhoddion ariannol er cof am fy mrawd a'm chwaer, Arwyn ac Eirian. Oherwydd eich haelioni, cyfranwyd £530 at Elusen Marie Curie a £530 at Ymchwil Canser y Gogledd Orllewin.

Diolch o galon i bawb.




Gŵyl Ffuglen Llyfrgelloedd Sir Ddinbych tud 18




Ceri Ellis tud 14



Cadair Gwilym R.Jones tud 16




Meic Stevens tud 10

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifon Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifonjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'

CYMRAEG

**Golygydd Mis Chwefror Martha Cordiner**

# Gair gan y Golygydd

Clywsom y gair 'balchder' yn aml yn ystod ac yn dilyn cyfnod tîm pêl-droed Cymru yng Nghystadleuaeth Cwpan y Byd yn Qatar yn ddiweddar. Er i'r tîm chwarae'n siomedig a thanberfformio mewn grŵp cryf a gorffen ar waelod eu tabl, roeddem yn falch o dîm Cymru.

Ond gellir defnyddio'r gair 'balchder' mewn cyd-destun lleol a gwahanol. Mae Oergell Gymunedol Dinbych wedi ei lansio yn Eirianfa yn ddiweddar er mwyn rhannu bwyd ffres bennaf yn rhad ac am ddim i unrhyw un sy'n galw heibio. Mae Clwb Gateway (MENCAP) yn dal i gyfarfod bob nos Wener ar ôl dros 40 mlynedd. Noswyl Nadolig bu gwirfoddolwyr yn rhannu cinio Nadolig i drigolion y dref sy'n byw ar ben eu hunain. Gwyddom am waith y grŵp cymunedol, 'Dinbych yn Blodeuo' yn llwyddo i harddu'r dref.

Rhaid ymfalchio yng ngwaith dyngarol llawer o fudiadau, cymdeithasau, elusennau, clybiau chwaraeon (i blant yn arbennig) ac eglwysi'r dref. Mae gennym falchder yn ymroddiad yr holl wirfoddolwyr sy'n weithgar mewn sawl ffordd yn y gymuned leol. Cofiwn hefyd am y teuluoedd sydd wedi cartrefu Iwcraniaid yn yr ardal ac am yr help a roddir i ofalwyr. Mae llawer o'r gwirfoddolwyr yn gweithio'n ddi-flino ac yn ddi-ddiolch ac yn aml yn y dirgel.

Rydym yn falch o dîm pêl-droed Cymru ac mae balchder hefyd yn ein gwirfoddolwyr. Rydym yn eu hedmygu ac yn diolch amdanynt. Beth am wirfoddoli, os nad ydych yn gwneud yn barod, yn y flwyddyn newydd!

---

Fuodd plant yn hel calennig acw eleni? Does dim traddodiad o hel calennig yn yr ardal yma o'i gymharu â rhai ardaloedd yn yr hen Sir Gaernarfon. Mae'r traddodiad wedi diflannu ymhobman bellach ond cywirwch fi os dwi'n anghywir!

Roedd Dydd Calan yn ddiwrnod mawr i ni'r plant yn Llanllyfni ers talwm a llawer ohonom yn cerdded o dŷ i dŷ yn y pentref yn hel calennig gan dderbyn pres a fferins. Rhaid wrth gwrs oedd ymweld â thŷ'r rheolwr banc oedd wedi ymddeol a deuai llawer o blant i siop groser fy nhad am resymau amlwg! Rhaid oedd gorffen cyn hanner dydd a hynny ar frys - fiw inni ail-gychwyn ar ôl cinio! Flynyddoedd wedyn, gofynnai fy nhad yn gellweirus imi am ei g'lennig ac yntau yn ei saithdegau. Rwy'n siwr ei fod yntau wedi bod yn hel calennig yn blentyn tua chanrif yn ôl bellach. Biti na fuaswn wedi ei holi am yr hen arferiad hwn yn y pentref.

Ydi Noson Calan Gaeaf bellach wedi disodli'r hen draddodiad hwn ymysg plant?

Gadewch imi wybod am unrhyw atgofion o hel calennig.

---

Mae'r cynllun 'Siarad' yn paru siaradwyr Cymraeg gyda dysgwyr gyda'r nod o roi cyfle i ddysgwyr fagu hyder trwy sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma gynllun sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd go iawn efo siaradwyr Cymraeg "normal" am bob peth dan haul mewn ffordd naturiol heb orfod poeni am ramadeg na chywirdeb iaith.

A gan fod gostyngiad o dros 20,000 yng nghyfanswm y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn ôl cyfrifiad 2021, mae denu mwy o bob oed i ddysgu Cymraeg yn holl bwysig. Mae rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu sgiliau iaith drwy'r cynllun paru 'Siarad' yn syniad gwerthchweil.

Mae modd cofrestru â'r cynllun trwy ymweld â gwefan dysgucymraeg.cymru neu e-bostio swyddfa@dysgucymraeg.cymru.

Mae mwy am y cynllun yn rhifyn Rhagfyr o'r Bigwn.

Rhaid canmol grŵp o blant o Wcráin sydd wedi cael gafael ar yr iaith mewn ychydig o wythnosau yn Ysgol Moelfre ar Ynys Môn. Anhygoel! Rhaid canmol hefyd y ffordd y normaleiddiwyd yr iaith Gymraeg yn Qatar yn ystod Cystadleuaeth Cwpan y Byd.

**Erfyl**

**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Ionawr**
**Pob dim i gyrraedd e-bost**
**Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn**
**Ionawr 20fed**

# CYMDEITHAS CALEDFRYN

Llyr Jones, Derwydd, Llanfihangel Glyn Myfyr oedd y siaradwr gwadd yn ail gyfarfod y gymdeithas yn y King's Head, Llanrhaeadr.

Cyflwynwyd Llyr i'r aelodau gan Lywydd y Noson sef Rod Williams a dywedodd ei fod wedi adnabod y teulu ers blynyddoedd a'u bod yn uchel iawn eu parch o fewn y gymuned amaethyddol.

Yn ôl Llyr lleolir y fferm tua un filltir tu allan i bentref Llanfihangel ac mae'n fferm gymysg gyda phwyslais mawr ar arall gyfeirio. Cedwir oddeutu 500 o ddefaid Mules a 500 o ddefaid Cymreig ac yn ddiweddar rhoddwyd gorau i gadw buches o wartheg sugno gan ganolbwyntio yn hytrach ar fagu lloeau.

Yn 2015 adeiladwyd dwy sied ieir ar gyfer y farchnad wyau ac mae oddeutu 16,000 o ieir ym mhob sied gyda'r system bwydo, dyfrhau, glanhau a chasglu'r wyau yn gyfan gwbl awtomatig. Mae popeth yn cael ei fesur a'i wirio yn fanwl iawn drwy ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol 'eggbase'. Gall Llyr gael ei rybuddio drwy decstio bod rhywbeth o'i le gydag iechyd yr ieir cyn bod yr ieir eu hunain yn gwybod! Ceir dros 30,000 o wyau bob dydd sydd yn cael eu gwerthu bron yn gyfan gwbl i archfarchnad Tesco. Yn y dyfodol mae Llyr am gael gwared ar yr ieir brown a'u cyfnewid am ieir gwyn am eu bod yn dodwy mwy o wyau. Yn gyffredinol mae'n well gan gwsmeriaid yr archfarchnadoedd wyau brown nag wyau gwyn er mai'r unig wahaniaeth ydy lliw y plisgyn.

Dywedodd ei fod wedi buddsoddi yn helaeth mewn systemau hydro-electrig a phaneli solar ac mae'r holl faw ieir yn cael ei anfon i'w ddefnyddio fel gwrtaith i arddwyr a ffermwyr. Yn ddiweddar mae wedi arall gyfeirio ym maes twristiaeth amgen gan gynnig 'Gwersylla Gwyllt' ar ddarn o'i fynydd sydd dros 250 o erwau ar gyfer nifer bach iawn o wersyllwyr. Mae'r nifer yn gyfyngedig i 10 grŵp o unigolion, ffrindiau neu deuluoedd er mwyn mwynhau'r unigrwydd a'r distawrwydd ar gyrion Coedwig Clocaenog.

Yn 2008 dechreuodd Llyr gyda phartneriaid eraill gynhyrchu olew hadau rêp o dan y brand 'Blodyn Aur' ar gyfer y farchnad coginio. Cynhyrchir dros 6000 o boteli y mis ar gyfer Morrison's, Asda a Sainsbury's. Fel y dywed ar y botel-'Tyfwyd a Gwasgwyd yng Nghymru gyda Balchder'.



Rod Williams a Llyr Jones

## Eglwys Unedig Y Fron a'r Brwcws

Yr oedd y gwasanaeth Bore Sul, Tachwedd 20fed yn y Capel Mawr a'r pregethwr oedd Y Parch. Eric Greene, Y Bala ac fe wnaeth Nerys Ann Roberts ddiolch iddo ac i Catrin Warren am gyfeilio. Gyda ni yn y Fron oedd y gwasanaeth Bore Sul, Tachwedd 27ain gyda'r Gweinidog yn gwasanaethu a Wendy Lloyd Jones wnaeth estyn croeso iddo a'r organyddes oedd Iona Edwards. Yr ydym yn cydymdeimlo gyda Dorothy Bartley yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng Nglan Conwy. Ein Gweinidog oedd yn pregethu yn y Capel Mawr fore Sul, Rhagfyr 4ydd a Cheryl Williams oedd yn llywyddu a Dorothy Rogers oedd yn cyfeilio.

Bore Sul, Rhagfyr 11eg, er gerwinder y tywydd, fe ddaeth cynulleidfa deilwng i'r gwasanaeth Nadolig yr oedd Gaynor Prew, Llywydd y Mis, wedi ei baratoi. Wendy Lloyd Jones, Carolyn Thomas, Gwilym Williams a Cheryl Williams (Capel Mawr) oedd yn cymryd rhan a'r organydd oedd Eiri Jones. Talwyd y diolchiadau gan Gaynor i Wendy, Dafydd, Siân a Liz am addurno'r Capel yn chwaethus iawn ar gyfer yr Ŵyl a hefyd i Aelwyn Lloyd am ofalu fod y buarth tu allan i'r capel yn ddiogel i ni gerdded arno. Wedi'r gwasanaeth yr oedd cyfle i bawb fwynhau paned a mins pei a chymdeithasu. Yr ydym wedi colli Glyn Arthur Roberts yn ystod y mis ac yn cydymdeimlo yn fawr gyda'i chwaer, Rowena, sydd yn byw yn Prince Edward Island, Canada.

Llongyfarchiadau i Catrin Roberts ar enedigaeth efeilliaid, brawd a chwaer i Cadi a hefyd llongyfarchiadau i Mrs Beti Jones ar ddod yn hen Nain i'w gor-wyres gyntaf, Eliza Hazel.

Cofion at aelodau a chyfeillion yn enwedig y rhai ohonoch sydd heb fod cystal eich iechyd yn ddiweddar ac rydym yn meddwl am Edna Williams ac Iona Jones, y ddwy wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Dymuniadau gorau a phob bendith i'n holl aelodau ar gyfer 2023.

Ar wahân i'r ffermio a'i fentrau busnes mae Llyr wedi bod yn rhan o'r elusen 'Cam wrth Gam'-menter gan griw o wirfoddolwyr sydd wedi adeiladu nifer o gyfleusterau a chyfarpar hanfodol mewn gwledydd fel Malawi, Kenya a Sri Lanka. Yn 2009 gyrrwyd fan yr holl ffordd o Lanfihangel i'r Gambia gydag offer tyllu 'borhole' ar gyfer dŵr glân i'r gymuned. Dros y blynyddoedd adeiladwyd chwe ysgol, tair cegin gymunedol ac ystafelloedd dosbarth ar gyfer 400 o blant ac wrth gwrs un 'borhole'.

Ar gychwyn y rhyfel yn Iwcrain ym mis Chwefror penderfynodd Llyr a rhai o'i ffrindiau yrru Land Rover Discovery a threlar Ifor Williams yn llawn cyfarpar meddygol a bwyd sych yr holl ffordd i'r ffin rhwng Gwlad Pwyl a'r Iwcráin. Llwyddodd y grŵp i godi £10,000 mewn diwrnod ar gyfer prynu'r holl nwyddau angenrheidiol a throsglwyddwyd y Discovery i aelodau o fyddin Iwcráin.

Diolchwyd i Llyr am sgwrs mor ddiddorol gan Rod. Noson arbennig iawn unwaith eto.

**Jac Roberts**

## Cylch Llenyddol Glannau Clwyd


Yr Athro Deri Tomos

Yr Athro Deri Tomos a ddaeth atom i'n diddanu yn ein cyfarfod ar ddechrau Rhagfyr. Testun ei ddarlith oedd "Kyffin, Coch a Melyn."Cafwyd darlith wahanol iawn i'r arlwy lenyddol arferol, llawn bob math o ffeithiau a choelion rhyfeddol am liwiau yn cynnwys nifer o gwestiynau dyrys megis sut ydan ni'n gweld lliwiau, a faint ohonyn nhw sydd yna? Pam eu bod yn troi'n wyn pan fyddant i gyd yn gymysg â'i gilydd? Ydy pawb yn gweld lliwiau'r un fath? Sawl lliw sydd yn yr enfys mewn gwirionedd, pwy sy'n penderfynu ac ydy Cafodd Owain Meilyr Greyr Glas i Frecwast yn adlewyrchiad teg ohonynt? Heb sôn am pam fod caeau'n glasu yn y gwanwyn er bod gwair yn wyrdd! Dim rhyfedd bod nifer fawr o gwestiynau ar ddiwedd y ddarlith ac i ni ei chael hi'n anodd dod â'r noswaith i ben!
Elfyn Llwyd, y cyn Aelod Seneddol dros Feirionnydd Nant Conwy, fydd yn dod atom yn y flwyddyn newydd i drafod 'Argraffiadau ar Fywyd Seneddol', sy'n argoeli i fod yn noson hwyliog a diddorol arall. Dewch draw i Gapel Trefnant (LL16 5UG) erbyn 7pm nos Lun 9 Ionawr 2023. Croeso cynnes i bawb – cewch dalu £4 wrth y drws os nad ydych wedi ymaelodi eleni.
Dr Eiddwen Jones, yr awdur adnabyddus lleol, fydd efo ni yn Chwefror (6ed), a Meinir Pierce Jones, awdur buddugol Gwobr Goffa Daniel Owen eleni fydd yn dod â'n rhaglen bresennol i ben nos Lun, 3 Ebrill. Lot i edrych ymlaen ato yn 2023!

## Cymdeithas y Chwiorydd Eglwys Unedig Y Fron a'r Brwcws

Bu cyfarfod o'r Gymdeithas prynhawn dydd Mercher, Tachwedd 16eg ac ar banel 'Hawl i Holi' oedd Gaynor Morgan Rees, Gareth Roberts a Gwilym Luke Jones gyda Richard Snelson yn cadeirio. Mi fu cryn drafod ar y cwestiynau yr oedd yr aelodau wedi eu dewis. Fe gawsom orig ddifyr iawn ac fe wnaeth Carolyn Thomas ddiolch i bawb gan gynnwys Rhianwen Williams am y rhan defosiynol ac i Gaynor Prew, Eiri Jones a Gwenda Owens am wneud paned.
Yr ydym yn cydymdeimlo yn fawr iawn â theulu y diweddar Mrs Myfanwy Jones, Dolawel yn eu profedigaeth. Yr oedd Mrs Jones yn ffyddlon iawn yn ein cyfarfodydd ar hyd y blynyddoedd.



## Dyddiadur

**Nos Wener, Ionawr 6ed**
Y Gymdeithas Gymraeg—Alison Price
Gwaith Age Connects Canol Gogledd Cymru
Yn festri Capel y Fron - Croeso cynnes i bawb
**Nos Lun, Ionawr 9fed**
Cylch Llenyddol Glannau Clwyd - Elfyn Llwyd
Argraffiadau ar Fywyd Seneddol
yng Nghapel Trefnant am 7yh
Croeso cynnes i bawb.
**Nos Wener, Ionawr 20fed**
Y Gymdeithas Gymraeg—Y Parch John Owen, Rhuthun
"Celwydd Gola"
Yn festri Capel y Fron Croeso Cynnes i bawb
**Nos Fercher, Ionawr 25ain**
Dathlu Santes Dwynwen a Burns
(Trefnydd: Nerys Ann Roberts)
yn Festri'r Capel Mawr, Dinbych Tocynnau: £5
Elw at Hadau Gobaith a Cynnig
**Nos Wener, Ionawr 27ain**
Cymdeithas Caledfryn
Gwilym Davies (Egryn) - Gwaith y Crefftwr
**Nos Wener, Chwefror 3ydd**
Cymdeithas Gymraeg Dinbych
Noson Gartrefol gyda Nerys Ann Roberts
yn festri Capel y Fron. Croeso cynnes i bawb.
**Nos Sadwrn, Chwefror 11eg.**
Cwmni Frân Wen yn cyflwyno
Croen Dena yn Theatr Twm o'r Nant am 7.30yh

**Rhaghysbysiad**

**Nos Fercher, Mawrth 1af.**
Cwmni Bara Caws yn Theatr Twm o'r Nant

**Nos Sadwrn, Mawrth 11eg.**
Tic Toc
Sioe Gerdd Ddwyieithog yn Theatr Twm o'r Nant

Tocynnau gan Gaynor Morgan Rees 01745 812349
ac o Siop Clwyd 01745 813431

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

## Llythyr o’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Annwyl olygydd

Ysgrifennaf atoch o’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn y gobaith y bydd y wybodaeth isod o ddiddordeb i’r darllenwyr.

Rydym eisiau lledaenu’r gair fod ysgoloriaeth gwerth hyd at £2,000 ar gael i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gwybod mwy am fod yn diwtor Dysgu Cymraeg i oedolion neu athro / athrawes Cymraeg.

Mi fyddwn yn talu £500 yr wythnos i ymgeiswyr llwyddiannus, gan gynnig pythefnos yng Nghaerdydd yn dysgu mwy am faes Dysgu Cymraeg i oedolion a phythefnos mewn ysgol uwchradd yn arsylwi gwersi Cymraeg. Mi all ymgeiswyr llwyddiannus ddewis faint o wythnosau maen nhw’n dymuno eu gwneud.

Mae yna alw cynyddol am diwtoriaid ac athrawon Cymraeg ledled Cymru, ac rydym angen cyflenwad cyson o dalent newydd.

Mi all myfyrwyr sy’n astudio unrhyw bwnc wneud cais – ’dyn ni’n chwilio am bobl ifanc all ysbrydoli eraill i ddysgu a siarad Cymraeg, gyda sgiliau cadarn yn y Gymraeg eu hunain.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **31 Ionawr, 2023** ac mae modd gwneud cais trwy wefan y Ganolfan – dysgucymraeg.cymru

Diolch ymlaen llaw a chofion gorau

Helen Prosser,

Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu y Ganolfan.

## Llythyr gan Mudiad Ysgolion Meithrin

**Wythnos Ewyllysiau Mudiad Meithrin 2-8 Ionawr 2023**

Ydych chi’n un o’r 59% o oedolion sydd heb wneud ewyllys eto? Mae’n bwnc sensitif nad oes llawer yn hoff o’i drafod ond mae’n rhywbeth y dylen ni gyd ei wneud. Felly os nad ydych chi wedi llunio eich ewyllys eto, beth am i chi ystyried gwneud un yn ystod **Wythnos Ewyllysiau Mudiad Meithrin** (2-8 Ionawr 2023) gan ystyried rhoi rhodd bach i’ch Cylch Meithrin lleol neu i’r Mudiad yn eich ewyllys er budd dyfodol y Gymraeg?

Mae llunio ewyllys yn broses hawdd a bydd yn rhoi tawelwch meddwl ichi pe bai’r annisgwyl yn digwydd, gan wybod y bydd eich eiddo, eich arian a’ch asedau yn cael eu dosbarthu yn ôl eich dymuniad ac yn llai o straen ar eich perthnasau gan y byddent yn gwybod yn union beth yw eich dymuniad.

Yn y Mudiad ry’n ni’n ddiolchgar iawn o unrhyw gyfraniadau ariannol, ac mae’r arian ry’n ni wedi ei dderbyn dros y blynyddoedd wedi bod o fudd mawr inni wireddu rhai o’n cynlluniau er budd plant bach Cymru. Enghraifft o hyn yw’r cymeriadau hoffus Dewin a Doti. Gydag arian rhodd ewyllys y crëwyd y cymeriadau hyn sydd i’w gweld ym mhob Cylch Meithrin yng Nghymru yn annog plant bach i siarad Cymraeg.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i fynd ati, ewch i https://meithrin.cymru/igefnogwyr/cefnogi/rhodd-mewn-ewyllys/

Llawer o ddiolch ymlaen llaw ichi am ystyried Cylch Meithrin neu Mudiad Meithrin pan fyddwch yn llunio eich ewyllys

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i’n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Holi a Stilio yng Nghwmni Eiddwen Watkin





Teulu Eiddwen

**Sonia ychydig am dy gefndir/dy fagwrfa**
Ges i fy ngeni mewn pentre bach o'r enw Cwm, ddim yn bell o Dyserth. Dwi yn un o 6, tri brawd a dwy chwaer. Ond wedi colli un chwaer flwyddyn diwetha.
Cawsom ni fagwraeth hynod o dda. Roedd Nain yn aros gyda ni am sbeliau go hir, mae'n siwr i helpu Mam gyda'r holl blant. Felly roedd naw ohonon ni yn rhannu tŷ cyngor tair llofft.
Roedd Dad yn gweithio ar y rheilffordd, weithiau yn mynd mor bell â Chorwen ar ei fotobeic. Roedd hefyd yn dod i Ddinbych i weithio yn y Signal Box cyn ei gau yn 1962.
Symudon ni lawr i Dyserth i fyw ar Ffordd Cwm, felly aethom ni i gyd i Ysgol Hiraddug. Byw drws nesa i'r cyn brifathro, roedd rhaid i ni i gyd bihafio.

Es i ffwrdd yn 18 oed i nyrsio mewn ysbyty yn Crewe, Sir Gaer, ond hiraethu am Ddyffryn Clwyd oeddwn i, felly dod yn ôl wnes i a chyfarfod Hywel ar Ward Mamolaeth, H.M. Stanley. Roedd o'n gneud hyfforddiant Meddyg Teulu, a finne hyfforddiant Bydwraig. Bron i ddeugain mlynedd wedyn da ni mor ffodus i gael Tomos a'i deulu (Katie, Idris ac Osian), Nia a'i theulu (Sam, Dafydd a Llion) a Rhys (a Sophie, ei ddyweddi).

**Be ydi dy atgof cyntaf ?**
Roedd gen i berthynas annwyl iawn gyda Nain. Roedden ni'n gwario lot o amser hefo'n gilydd. Roedd hi'n gwario bob amser gwely hefo fi yn dysgu Gweddi'r Arglwydd i mi yn Gymraeg a Saesneg, yn penglinio wrth ochor y gwely.

**Ti'n brysur efo menter newydd: 'Oergell Gymunedol Dinbych' yn Eirianfa. Eglura mwy.**
Mis Mehefin flwyddyn yma ( 2022) aethon ni i gyfarfod yn Eirianfa, sef Cynulliad y Bobol i drafod bwyd cynaliadwy yn Ninbych. O hynny mae yna grwpiau wedi dod i ddatblygu syniadau. Un o'r grwpiau ydi'r Oergell Gymunedol.
Aethom at Amanda yn Eirianfa fel canolfan lle gallem gynnal y prosiect. Mae Eirianfa yn ganolfan fendigedig i'r math yma o brosiect ac Amanda a'r ymddiriedolwyr wedi bod yn gefnogol ofnadwy o'r Oergell.
Mae'r Oergell ar agor i'r cyhoedd Dydd Llun a Dydd Iau rhwng 10yb a 12 ganol dydd. Mae Morrisons a'r Co-Op wedi ein cefnogi yn y fenter yma. Y syniad ydi bod yr holl fwydydd sydd dros ben gan yr archfarchnadoedd ddim yn cael ei wastraffu ac yn mynd i dirlenwi. Mae'r bwyd am ddim i bwy bynnag sydd ei angen neu i bwy bynnag sy'n gallu ei ddefnyddio.

**Rydych fel teulu wedi bod yn brysur gyda'r Iwcraniaid a ddaeth i Gymru eleni. Sonia fwy.**
Mi ddaru Tomos a Katie gymeryd dau deulu i mewn o Wcráin yn Nhremeirchion pan gychwynnodd yr helyntion. Dwy fam, un gyda hogyn yn 10 oed a'r llall efo hogan fach yn 8 oed. Am nad oedd un o'r mamau yn gyrru, symudodd lawr i Ddinbych i allu cerdded i'r ysgol ac i'r gwaith. Mae hi rwan wedi cael swydd yn y llyfrgell ac yn ymuno yn y gymuned ac yn trefnu digwyddiadau i ffoaduriaid lleol .
Mae'n rhaid imi ddweud, mae'r gefnogaeth wedi bod yn anhygoel, draw yn Nhremeirchion a hefyd yma yn Ninbych. Os oedd angen rhywbeth ar unrhyw un ohonyn nhw, roedd yna wastad rhywun yn barod i helpu. Fedrai ddim diolch digon i bawb am eu caredigrwydd. Mae'r plant yn cael rhywfaint o Gymraeg yn Ysgol Frongoch a'u clywed yn darllen Cymraeg yn wych.

**Pa dri lle sy'n bwysig ichdi ?**
Mae fy nghartref yn bwysig iawn i mi fel lle saff a lle i wario amser gyda fy nheulu.
Mae'r gymuned yma yn Ninbych yn bwysig iawn i mi, gyda ffrindiau da a chymdogion da lawr yma yn y Brwcws.
Mae'r ardal wledig hyfryd sydd ganddom yn Nyffryn Clwyd yn holl bwysig i mi. Dwi'n hoffi cerdded gyda ffrindiau a'r gŵr wrth gwrs, a dyna be wnaeth Hywel a finne yn ystod Covid. Cerdded o gwmpas y llwybrau sydd yma ar ein stepan drws ni a darganfod natur, cael yr amser i weld beth sy yma yn yr ardal hyfryd hon.


**CYNGERDD MAWREDDOG**
**Nos Sadwrn**
**Chwefror 18fed 2023**
**Neuadd y Dref, Dinbych**
**Glyn Owens**
Yn cyflwyno
**Côr Dyffryn Clwyd**
**Côr Meibion Bro Aled**
**Ceri Haf Roberts**
**Elis Jones**
**Sion Eilir Roberts**
**Tocynnau - £15 ar gael yn Siop Clwyd,Dinbych**
**Elfair, Rhuthun ac wrth y drws**
**Elw at elusennau lleol ac Wcrain**
**Trwy law Clwb Rotary Dinbych**

**Be sy wedi achosi'r embaras mwyaf ichdi?**
Gweld y gŵr yn dawnsio disgo, os oes rhywun wedi bod mor ffodus o'i weld o, byddwch yn cydymdeimlo â fi!

**Beth sy'n mynd o dan dy groen?**
Pobol yn gyrru o gwmpas cylchfan ddim yn defnyddio'r signalau!

**Sut fyddi di'n treulio dy oriau hamdden?**
Mae pobol sy'n fy adnabod yn gwbod yn iawn lle dwi yn gwario llawer o'm hamser hamdden, yn fy stafell pwytho yn gwneud cwiltiau i bobol. Fedrai ddim deud faint dwi wedi neud. Mae Cwiltwyr Dyffryn Clwyd yn cyfarfod yn Eirianfa unwaith y mis ar nos Fercher. Eisoes mae yna tua 70 o aelodau, ac am grŵp annwyl ydyn nhw i gyd.

**Oes llyfr wrth erchwyn y gwely ar hyn o bryd?**
Llyfr Saesneg sydd gena i ar fynd ar hyn o bryd, argymhelliad Amanda o Eirianfa, " All the light we cannot see" gan Anthony Doerr, stori am ddau blentyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd, un hogan fach sy'n ddall yn dengid o Baris hefo'i thad a hogyn bach sydd yn glyfar iawn, plentyn amddifad sy'n cael ei gymryd i ganolfan ieuenctid Hitler.

**Pa fath o raglenni teledu a radio neu bodlediad sy'n rhoi pleser ichdi?**
Mae Hywel a finne yn mwynhau dwy raglen yn arbennig sef Strictly Come Dancing a hefyd Masterchef the Professionals 2022. Da ni hefo diddordeb arbennig ar hyn o bryd achos fod Owen Vaughan sy'n cystadlu, yn perthyn trwy briodas. Felly allai ddeud mod i wedi gwneud cinio dydd Sul i finalist Masterchef the Professionals! Roedd yn hoff iawn o'r pwdin a'r pwdin Sir Efrog o ni wedi neud!

**Oes na wyliau sy'n sefyll allan?**
Mae Hywel a finne yn mwynhau trafeilio, ac wedi gwneud ambell i drip cofiadwy. Un yn ddiweddar cyn Covid oedd i Svalbad yn yr Arctig. Aethon ni ar gwch o gwmpas yr ynys yn chwilio am y bywyd gwyllt sydd ar gael yna. Mi welson ni eirth gwyn, mam a dau o rhai bach, morfilod, morloi, walrws a llawer o adar. Roedd yr arbenigwyr yn bwyta prydau bwyd gyda ni, felly cawsom gyfle i sgwrsio gyda nhw.


**Oes gen ti gynlluniau ar gyfer 2023?**
Da ni wrthi yn trefnu parti Penblwydd Priodas Rhuddem Hywel a finne ym mis Gorffennaf flwyddyn nesa. Parti i deulu a ffrindiau. Da ni yn ffodus i gael teulu annwyl a ffrindiau da a hefyd iechyd da.

**Pa gyngor fuaset yn ei roi i Brif Weinidog?**
Diar bach beth allai ddeud am Lywodraeth Lloegr ar hyn o bryd, yn enwedig yn ystod Covid, a dim llawer gwell ers i Boris adael. Allai ddeud un peth, ein bod ni wedi bod yn ffodus iawn gyda'n harweinydd ni yma yng Nghymru o dan ofal Mark Drakeford, ro'n i wir yn teimlo yn saff o dan ei ofal, falch iawn ein bod ni'n byw yng Nghymru.

# Llyfr Newydd er cof am R.M. (Bobi) Owen

Aeth dwy flynedd ar bymtheg (2005) heibio ers pan gyhoeddwyd Cyfrol 3 o "Denbigh - A Pictorial History" gan R.M.Owen. Mae'r 4ydd gyfrol yma yn cael ei chyhoeddi er cof am R.M. Owen - Bobi Owen i bobl Dinbych.
Dros y blynyddoedd datblygodd Bobi Owen ddiddordeb yn hanes Dinbych a daeth yn gasglwr selog o ffeithiau, hen ffotograffau, hen lyfrau, cardiau post a llythyrau. Cyhoeddodd sawl cyfrol a chyfrannodd yn rheolaidd i gyhoeddiadau lleol yn Gymraeg a Saesneg ac roedd yn siaradwr uchel ei barch gyda galw mawr am ei wasanaeth.
Roedd yn angerddol am ei dref enedigol a'i phobl a threuliodd flynyddoedd lawer yn ymchwilio ac yn casglu unrhyw beth oedd yn ymwneud â Dinbych. Bobi Owen oedd ein "Hanesydd Lleol". Roedd ei wybodaeth am ei dref enedigol yn anhygoel ac yn ddiderfyn.
Mae'r gyfrol yma, sydd yn dilyn yr un ffurf â'r tair cyfrol flaenorol, er cof am Bobi Owen ac mae'r adran ddarluniadol gyntaf yn y llyfr er cof arbennig amdano. Mae angen diolch i'w frawd John a'i chwaer Margaret am ganiatáu i'r lluniau personol yma gael eu defnyddio
Etifeddodd Amgueddfa Dinbych gasgliad helaeth Bobi Owen o gardiau post, ffotograffau, llyfrau a nodiadau ysgrifenedig am Ddinbych. Mae'r Tîm Archif Cymunedol wedi cyflawni'r dasg o ddod â nifer fawr o gardiau post a lluniau nas cyhoeddwyd o'r blaen at ddibenion y gyfrol hon. Mae'r nodiadau sydd ynghlwm wrth bob llun wedi'u paratoi o nodiadau Bobi Owen ar gefn y cardiau post ac o ddeunydd a ysgrifennwyd ganddo ar gyfer ei gyhoeddiadau eraill. Mae gwybodaeth atodol hefyd wedi'i ddarparu gan y tîm o ffynonellau eraill.
Mae diolch arbennig i Gyfarwyddwyr Amgueddfa Dinbych am gytuno i ariannu'r cyhoeddiad hwn allan o etifeddiaeth a adawyd i'r amgueddfa gan y diweddar R.M.Owen.
**Bydd y llyfr ar werth o ddydd Llun 19eg o Ragfyr am £11.95. Gellir ei brynu yn Amgueddfa Dinbych unrhyw ddydd Llun neu ddydd Iau rhwng 1.30 a 4 am bris gostyngol o £10.**

**Medwyn Jones**



# Cyfrifiad 2021

Yn ôl cyfrifiad 2021 mae cwymp o tua 23,700 yng nghyfanswm siaradwyr Cymraeg 3+ oed Cymru o'i gymharu â chyfrifiad 2011 – gostyngiad o 562,000 yn 2011 i 538,300 yn 2021, gostyngiad o 19% i 17.8%.

Un o brif benawdau cyfrifiad 2021 oedd y cwymp o 6% a welwyd mewn faint o blant 5-15 oedd yn siarad Cymraeg. Mae Covid19 yn rhan o esboniad posib am y gostyngiad a'r modd yr ymyrrodd hyn ar addysg yng Nghymru am dros flwyddyn ond mae'n rhoi cyfle hefyd i ni roi'r system addysg o dan y chwyddwydr er bod y system addysg yn aml yn derbyn y clod am atal y dirywiad dros y ganrif ddiwethaf.

Mae twf yr iaith yn dibynnu gymaint ar ein system addysg.

Mae'r Gymraeg wedi bod yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol ers 1988 ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi tyfu'n amlwg gydag addysg gynradd ac uwchradd i'w canfod ledled y wlad.

Mae gennym feithrinfeydd Cymraeg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n cynnig llwybr i ddatblygu sgiliau siaradwyr Cymraeg o'r crud i'r coleg. Gwelir strategaethau iaith niferus, S4C a Radio Cymru a thechnolegau iaith sydd yn sicrhau troedle yn y byd digidol modern.

Yn fyr, mae'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg mewn sefyllfa gymharol freintiedig o'i gymharu â mwyafrif o ieithoedd lleiafrifol y byd.

Yn ol Cymru Fyw,"…. Mae angen edrych yn fanwl iawn ar y ffigyrau hyn sef cwymp o 6% yn y plant 5-15oed sy'n siarad Cymraeg a datblygu strategaeth er mwyn gallu ymateb i'r anghenion sy'n codi.

Wedi'r cwbl, mae'r genhedlaeth hon wedi methu allan ar gymaint yn barod a does neb am eu gweld yn methu allan ar y Gymraeg."

---

Mae'n bosib dadlau bod y data ar gyfer y grwp oed nesaf i fyny sef oedolion ifanc yr un mor bwysig, os nad yn fwy pwysig byth.

Mae'r cyfrifiad yn dangos bod cwymp sylweddol i'w weld yn y niferoedd o bobl ifanc ac oedolion ifanc sydd yn siarad Cymraeg.

'Mae'r data yn awgrymu ein bod ni'n colli hanner ein siaradwyr Cymraeg mewn cyfnod gymharol fyr wrth i bobl ifanc adael y system addysg. Mae'n debygol iawn fod mewnfudo ac allfudo yn un ffactor sydd ar waith yma, wrth i siaradwyr ifanc symud o Gymru i chwilio am waith ac unigolion o du allan i Gymru symud i Gymru i fyw.'

Mae ffactor arall ar waith hefyd sef nad yw siaradwyr newydd o'r Gymraeg (rheini sydd wedi dysgu siarad Cymraeg yn y system addysg) yn parhau fel siaradwyr Cymraeg wedi iddynt adael yr ysgol.

Mae arolygon defnydd iaith yn dangos nad yw unigolion sydd ddim yn gwbl rugl eu Cymraeg yn gwneud defnydd helaeth ohoni. Mae hyn yn codi cwestiynau ynglyn â'r angen i sicrhau bod plant ysgolion Cymraeg yn derbyn digon o Gymraeg yn y system addysg (a thu hwnt) i sicrhau eu bod yn siaradwyr Cymraeg hirdymor.

Yn wir, yn ôl cyfrifiad 2021, 34.3% o siaradwyr Cymraeg oedran ysgol 3-15 oed yn unig sy'n gallu siarad Cymraeg a'r her yw cynyddu'r nifer yma'n sylweddol.

Os yw Llywodraeth Cymru am daro ei tharged o filiwn o siaradwyr, bydd angen cynyddu'r ganran hon yn sylweddol a'u cadw wrth iddynt adael y system addysg.

**Diolch i BBC Cymru Fyw ac i Dr.Cynog Prys a Dr. Rhian Hughes.**

# Siom a Gobaith

Dwi ddim yn siwr os yw cyrraedd rownd derfynol Cwpan y Byd am y tro cynta' ers 1958 yn ddigon o foddhad ynddo ei hun, ond i fod yn onest, braidd yn siomedig oeddwn ym mherfformiad tîm Cymru yn Qatar. Yn sicr rydym wedi dibynnu llawer dros y blynyddoedd ar dalent pencampwyr fel Gareth Bale ac Aaron Ramsey ond y gobaith rwan ydi ail adeiladu ar y llwyddiant a pharhau'r undeb cenedlaethol positif sydd wedi ei greu. I wneud hynny, mae angen dilyn esiampl Morocco a buddsoddi i ddatblygu chwaraewyr ifanc.

Dim bod prinder adnoddau wedi effeithio ar yr unig Gymro i ddod yn arwr ym myd rasio ceir, sef Tom Pryce, a fu farw mewn damwain yn Grand Prix De Affrica dros 45 blynedd yn ôl. Er gwaetha'r ffaith fod rasio ceir yn gêm mor gostus, fe lwyddodd i gyrraedd y brig yn gynt na neb o'i flaen drwy ei allu, ei benderfyniad a'i ddyfalbarhad - heb anghofio hefyd cefnogaeth ei rieni Jack a Gwyneth Pryce (yn y llun gyda'r awdur).

I Ysgol Frongoch yr aeth fel bachgen, ond am ryw reswm, gyda Rhuthun mae'n cael ei gysylltu, ac yno mae'r gofeb iddo. Siom felly oedd clywed fod yr apêl i gasglu arian i'w gofio hefyd yn Ninbych wedi bod yn aflwyddiannus. Ond drwy ddefnyddio yr hyn sy'n barod wedi ei gasglu i greu gwobr flynyddol, y gobaith yw y bydd disgyblion Ysgol Frongoch yn gallu dilyn eu breuddwyd gyda'r un penderfyniad y gwnaeth Tom hanner can mlynedd yn gynt. Fe fyddai wrth ei fodd i roi ei enw i'r fenter.

Yr unig Gymro i efelychu llwyddiant Tom ym myd rasio ceir rhyngwladol ydi'r gyrrwr ralio Elfyn Evans. Ar ôl dod yn agos i ennill yn y ddwy flynedd diwethaf, roedd disgwyl mawr iddo ddod yn bencampwr eleni. Yn anffodus, ychydig yn siomedig oedd y canlyniad terfynol er gwaetha' dod yn agos i ennill sawl gwaith. Y gobaith ydi y bydd 2023 yn dipyn mwy llwyddiannus. Mae Elfyn fel y tîm pêl-droed angen ein cefnogaeth.

**Dewi Rogers**



Dewi a Gwyneth, mam Tom Pryce

# Meic Stevens



Meic yn Llanberis tua 1983



Linda ac Eddie Lloyd Davies

Roeddwn yn digwydd edrych ar glawr un o recordiau hir Meic Stevens, Lapis Lazuli, yn ddiweddar pan ddois ar draws y geiriau hyn,'Diolch i…….Eddie a Linda Lloyd Davies am helpu ni i greu y record hon' a 'Cynllun y clawr gan Meic Stevens gyda chymorth Gwasg Helygain.' Dyma gydnabyddiaeth i Eddie a Linda Lloyd Davies o Wasg Helygain, y Rhyl am eu cymorth wrth gynllunio clawr y record. Roedd enwau Eddie a Linda Lloyd Jones a Gwasg Helygain yn canu cloch a dyma wneud ychydig o waith ymchwil.

Daeth Eddie a Linda yn berchnogion ar Wasg Helygain yn y Rhyl yn 1974 gan fyw uwchben y siop ar ôl symud o Helygain. Deuai mam Eddie o Nantglyn a'i gyndadau o ardal Prion, Saron a Nantglyn. Deuai teulu Linda o Swydd Stafford, Manceinion a Henffordd.

Roedd Eddie a Linda yn flaenllaw gydag eraill yn 'helpio'r achos' yn y Rhyl ar y pryd gan drefnu gigs Cymraeg yn bennaf yng Nghlwb Cymdeithasol y Triban yn y Rhyl. Deuai Meic Stevens i ganu yno ac aros gydag Eddie a Linda a'r teulu a byddai Meic yn treulio cryn amser yn dablach yn swyddfa Gwasg Helygain gan arwain Eddie ar gyfeiliorn o bryd i'w gilydd.

Mae gan Eddie straeon difrif am Meic. Dyma un," Byddai'n bleser bod yn rhai o'i gigs pan oedd ar ei ore. Dwi'n cofio yng Nghastell Gwrych rywbryd pan ddiffoddwyd y trydan. Roedd pawb mewn tywyllwch ac mewn panig. Doedd dim posib i'r grŵp Brân berfformio heb drydan. Dyma Meic yn rhoi tri chwarter awr o berfformiad acwstig yn y tywyllwch na ellid rhagori arno."

Dyma hanesyn arall:"….doedd pethe materol ddim yn cyfrif llawer i Meic. Fydde fo ddim yn cael ei dalu fawr ddim am wneud gigs weithia, medda fo. Ond wedyn pan fyddai ganddo arian fe fyddai'n hynod o hael. Byddai'n prynu anrhegion i'r plant acw, Guto, Siân a Bethan, byth a hefyd. Fe brynodd grochenwaith drudfawr iddyn nhw rywbryd. Pan gollon ni Bethan fe gawson ni lythyr hyfryd ganddo. Roedd hynny'n dangos ei ochr dyner a'i ddyngarwch."

Mae Eddie a Linda bellach yn byw yn Ninbych lle mae Guto'r mab a'i deulu'n byw hefyd. Guto yw perchennog Gwasg Helygain ers tua 2000 ond mae'r siop bellach ar safle newydd yn y Rhyl a dyma'r wasg sy'n argraffu'r Bigwn. Mae Siân, merch Eddie a Linda'n byw yn Ninbych hefyd.

Mae Eddie a Linda wedi colli cysylltiad â Meic bellach ond ar y pryd yn y 70au roeddent yn gwerthfawrogi talent Meic, yn mwynhau ei gwmni ac yn barod i'w helpu.

**Daw'r dyfyniadau uchod o'r llyfr 'Ar drywydd Meic Stevens Y Swynwr o Solfach' Hefin Wyn, Y Lolfa 2015.**

**Diolch i Eddie a Linda am eu cydweithrediad. (gol.)**

**Mae'r llun o Meic Stevens yn Llanberis yn perthyn i Eddie Lloyd Davies.**

Dwi'n siwr bod gan rhai o'n darllenwyr atgofion o'r cyfnod hwn yn y Rhyl a'r ardal yn y 70au ac o Meic Stevens. Gadewch i ni wybod.



CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**

- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**

- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA

01745 812835

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**

Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

# Gogglebocs Cymru

Mae Gogglebocs Cymru wedi bod ar sgrin S4C ers dechrau Tachwedd gyda chast a gogwydd hollol Gymreig. Daw mwyafrif helaeth o arlwy cartrefi Gogglebocs Cymru o Gymru.
Tudur Owen, y cyflwynydd a'r digrifwr sy'n lleisio. Mae o'n wyliwr brwd o deledu ac yn mwynhau Gogglebox ers blynyddoedd.
"Yn aml iawn, mi fyddi'n defnyddio Gogglebox fel argymhelliant o beth i'w wylio.
"Dwi 'di gweld lot o gyfresi da o'i herwydd a gobeithio neith hynny weithio i raglenni Cymreig hefyd trwy roi sylw a 'spotlight' arnyn nhw."
Mae ambell gynhyrchiad o du allan i Gymru yn ymddangos hefyd fel bod trafodaethau ac ymateb y cast yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn cartrefi ledled y wlad.
Mae Tudur Owen yn awyddus i bwysleisio mai rhan fach iawn sydd gydag ef i'w chwarae.
"…dwi ddim i fod yn rhy flaenllaw wrth gwrs. O wylio Gogglebox Sianel 4, cynnal a phontio o un darn i'r llall mae llais Craig Cash. A dyna ydi'n swydd i, cadw pethau i fynd.
"Gan fod ni'n mynd i gartrefi pobol, mae'n bwysig bod ni isio bod hefo nhw a bod y cymeriadau'n hwyl.
Maen nhw'n gadael i ni fynd i'w tai i fynd trwy'r doniol a'r dwys efo nhw – mae'n berthynas mor bersonol."
Meddai Llinos Griffin-Williams, Prif Swyddog Cynnwys S4C "Be'n well na rhaglen sy'n canolbwyntio ar sêr Cymru ar lawr gwlad?.... Cawn gwrdd â sawl cymeriad sy'n adlewyrchu Cymru gyfoes yn ei holl ogoniant. Wynebau newydd sy'n rhoi llais i'n cymunedau amrywiol."
Mae'r camerâu yn ymweld â chartrefi yn ardaloedd Brynaman, Caerdydd, Caerfyrddin, Caernarfon, Crymych, Llanelli, Maerdy, Manceinion, Pen-y-bont, Pwllheli, Talsarnau, Tregarth, Wrecsam ac wrth gwrs yn ymweld â chartref Dei Rich a Glain yn Ninbych.
Dyma holi'r ddau am y rhaglen a'u profiadau hyd yn hyn:-



Dei Rich, Glain a Tecwyn y ci

**Beth wnaeth ichi gymeryd rhan?**

Da ni di bod yn gwylio y Gogglebocs Saesneg ers blynyddoedd. Mae'n un o'r ychydig iawn o raglenni mae'r ddau ohonom yn fwynhau wylio efo'n gilydd. Fel arfer, os nad ydi o ar Sky Sports neu yn gwylio ffilm cowboi, does gan Dafydd ddim fawr o ddiddordeb! Gweld yr hysbyseb yn gofyn am gyplau i gymeryd rhan a meddwl pam ddim, heb feddwl y buase ni'n cael ein dewis.

**Gawsoch chi ddewis pa raglenni i'w gwylio ar gyfer Gogglebocs Cymru**?

Y tîm cynhyrchu sy'n dewis y rhaglenni a dydi'r grwpiau i gyd ddim yn angenrheidiol yn gwylio yr un rhaglenni bob wythnos.

**O'r holl raglenni rydych wedi eu gwylio hyd yn hyn, oes yna ffefryn?**

Dim ffefryn ond mae'n dipyn haws ymateb a bod yn feirniadol o raglenni/ cymeriadau ysgafn a rhaglenni Saesneg. I mi y darnau gorau yw'r sylwadau doniol/haerllug ac mae hynny'n anodd gyda rhaglenni dogfen a hefyd am fod Cymru yn wlad fach 'a phawb yn nabod pawb', rhaid bod yn ofalus be da chi'n ddeud!

**Sut mae Tecwyn wedi ymddwyn yn ystod y ffilmio a pwy sy'n llnau ei ddannedd?**

Yn amlwg o'r tri o Tŷ Ni, Tecwyn ydi'r seren! Mae o di bod yn hapus yn cymeryd rhan yn y 'preambles', sef y darnau ble rydym yn sgwrsio efo'n gilydd cyn gwylio'r rhaglenni.
Mae'n gartrefol o flaen y sgrin ond unwaith mae'n cael digon aiff i bendraw y soffa i gysgu! Dafydd sy'n fod yng ngofal glanhau ei ddannedd.

**Beth ydi eich oriau recordio ar gyfer Gogglebocs?**

Yn hollol ddiniwed ac anwybodus, ro'n i'n meddwl y bysa 'na gamera ar ein teledu, ein bod yn cael rhestr o raglenni i wylio ac yn medru gwneud hynny i'n siwtio drwy'r wsnos. Y realiti ydi bod 3 o'r criw yma am wyth bob bore Gwener tan 2 o'r gloch prynhawn - y dyn sain, y dyn camera a'r cyfarwyddwr yn iste yn y gegin tra da ni'n y stafell ffrynt. Bydd cyfres arall yn y flwyddyn newydd a byddwn yn ail gychwyn ffilmio diwedd Rhagfyr.

**Sut ymateb rydych wedi ei gael?**

Yn ffodus dwi'n gweithio o gartre a ddim yn gweld llawer ond ma Dafydd yn cael aml i gwsmer yn y siop yn canmol ac yn holi am y broses. Buom yn Cheshire Oaks wythnos diwetha yn siop fawr M&S. Fe gollais Dafydd a'i ffonio o'r ciw talu i holi ble roedd. Gorffen yr alwad a'r ferch o mlaen i a'i chefn ataf yn troi a gofyn os mai Glain oeddwn o Gogglebocs - roedd wedi adnabod fy llais!

**Diolch i Dei Rich a Glain am eu caniatad a'u cydweithrediad.**
**Diolch hefyd i Cwmni Da ac S4C am eu caniatâd a'u cydweithrediad.**

PyBj
GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

# Dosbarth Dysgwyr Cymraeg
# Nerys Ann Roberts

Sharon dw i. Dw i'n byw yn Ninbych. Dw i wedi ymddeol rŵan. Rôn i arfer gweithio mewn llawer o swyddi - actores, siopwraig, phlebotomist a nyrs.
Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers pum deg pump o flynyddoedd.
**Sharon**
Will dw i. Dw i'n byw yn Ninbych. Dw i eisiau dysgu Cymraeg i deimlo'n fwy rhan o ddiwylliant Cymru.
Actor dw i. Dw i wedi bod yn lwcus i gael rhannau bach (yn Saesneg) ac mewn rhaglenni Cymraeg fel Dim Byd, 'Run Sbit a Rownd a Rownd a dw i wedi gweithio efo cwmnïau fel S4C , Cwmni Da a Rondo. Hefyd dw i'n hoffi cynhyrchu fidios fy hun ar You Tube "Will Huw."
**Will**
Dw i'n byw yn ardal Rhuthun. Yn yr Haf dw i'n gweithio ar fy rhandir yn Rhuthun a dw i'n mwynhau siarad Cymraeg efo'r garddwyr eraill.Mae'n ddiddorol bod llawer o bobl yn siarad efo fi a dw i'n dysgu tipyn bach mwy bob tro dw i'n mynd i'r rhandir.
**Jim Brooks**
Dw i'n byw yn Llanfair Dyffryn Clwyd a dwi wrth fy modd yn dysgu Cymraeg. Dw i'n gwirfoddoli yn Siop Gymunedol Pwllglas a dw i hefyd yn helpu ym manc bwyd Rhuthun. Dw i wrth fy modd yn siarad Cymraeg efo'r wyrion.
**Pam Brooks**
Olivia dw i. Dw i'n byw yn Llundain efo fy nghariad Eben. Mae Eben yn wreiddiol o'r Wyddgrug. Dw i wedi bod yn byw yn Awstralia am flynyddoedd.
Actores dw i yn Llundain ac wedi bod yn actio mewn sioe gerdd Ffrengig o'r enw Le Maupin.
Dw i wrth fy modd yn dysgu Cymraeg efo Nerys Ann a dw i'n gobeithio mewn ychydig flynyddoedd ddod yn ôl i Gymru i fyw gan fy mod wedi syrthio mewn cariad efo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.
**Olivia**

## Adolygiad o Fi a Mr Huws

Nofel wedi ei hanelu'n bennaf at ddysgwyr yw **Fi a Mr. Huws** gydag iaith addas a rhestr o eirfa berthnasol yn y cefn.
Dyma adolygiad Gwyn.
Nofel ar gyfer dysgwyr lefel Uwch yw hon.
Cynhwysir rhywfaint o eirfa anghyfarwydd ar waelod y tudalennau i helpu dysgwyr.
Fodd bynnag, mae'r stori hefyd yn cynnwys rhai idiomau Cymraeg nad ydynt yn cael eu cyfieithu.
Mae hon yn stori gynnes a sentimental gyda rhai eiliadau dramatig ac ambell sefyllfa ddigrif.
Prif gymeriad y stori yw Lena sy'n briod â Ben. Mae eu hunig fab Caio newydd adael am y brifysgol ac mae Lena a Ben yn ei golli. Mae hyn yn rhoi straen ar eu perthynas. Mae Ben yn mynd yn encilgar iawn ac yn treulio amser oddi cartref. Mae hyn yn arwain Lena i gredu y gallai fod yn cael carwriaeth.
Mae Lena yn gweithio yn yr orsaf radio leol a'i bos Meic yw ei ffrind sy'n ei helpu a'i chefnogi.
Cymeriad allweddol arall yw Seren, derbynnydd yr Orsaf Radio. Mae hi'n gwisgo fel goth gyda dillad a cholur dramatig. Trwyddi hi mae Lena yn dod i adnabod yr henoed Thelma a'i chi Mr Huws. Mae Lena yn mynd â'r dasg o gerdded Mr Huws i helpu Thelma.
Mae ambell bennod ddoniol gyda Lena a Seren a Meic yn y grŵp Dawnsio Llinell. Hefyd ychydig o ddrama gyda Lena a Seren yn credu bod dyn yn bygwth Thelma a Caio yn cael eu cludo i'r ysbyty gydag atodiad byrstio.
Mae Lena yn darganfod bod Ben wedi colli ei swydd a dyma'r rheswm ei fod wedi bod yn ymddwyn yn rhyfedd.



A'r dyn y credai Lena a Seren oedd yn bygwth Thelma? Wel wrth gwrs doedd o ddim . Roedd y dyn yn fab i Thelma a oedd wedi cael ei fabwysiadu ac a oedd bellach yn chwilio amdani.
Diweddglo hapus i bawb.
**Gwyn Hill**

## Sgwrs am anrheg Nadolig.

Diolch yn fawr iawn i ti am brynu tŷ newydd i fi ar gyfer y Nadolig eleni. Dyna'r union beth on i isio ers prynodd y cymdogion drws nesa gi swnllyd. Mae o'n cyfarth drwy'r dydd, bore a phrynhawn, dydd ar ôl dydd ar ôl dydd. Mae o'n cyfarth pan dw i'n mynd â'r sbwriel allan. Mae o'n cyfarth pan mae'r postmon yn dod. Mae o'n cyfarth pan mae ci ni yn mynd allan i'r toiled yn yr ardd!.Mae o'n cyfarth ar bopeth.
Dw i'n edrych ymlaen at gael dipyn bach o heddwch a thawelwch rŵan.
Ond beth ydy hwn drws nesa i'r tŷ newydd?
O n a c e n e l m a w r aaaaaaaaargggghhhhh!!!

**Daniel coed hir**

CATalyst Systems - 01745 816611
Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk
Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

**Cyffesion dysgwr o ddosbarth Nerys Ann**

Mi es i neithiwr i ddosbarth cynganeddu yn ein hystafell ddosbarth yn Rhuthun i ddysgu am farddoniaeth a chynghanedd ( yn y Plu gyda llaw)

Yn gynta, achos roedd pêl droed ar y teledu, ni allen ddianc rhag hwn a gorfodwyd ni i'w wylio.

Ar ôl i'r gêm orffen dangosais fy englyn ddiweddara yn llawn camgymeriadau.

Wedyn roedd na drafod tanbaid am y Llywodraeth . Dw i'n meddwl ein bod braidd yn negyddol. Hefyd cawsom drafodaeth ar Statws yr Iaith y dyddiau hyn.

Wedyn gwnaethon ni sôn am y Mabinogion, Arthur a Historie Regum Britannia gan Sieffre o Fynwy gan iddo boblogeiddio hanes Arthur dros Ewrop.

Yn ystod y wers, mi wnes i ddysgu llawer ac un jôc newydd Nadoligaidd:-

Sut mae Joseff yn ymarfer corff yn yr ystabl?

Pressups (preseb)

**Mihangel**



Y tri gŵr doeth - Mihangel, Arwel Emlyn a Steffan Tudor.




Snow In Summer
33 Stryd y Dyffryn, Dinbych
LL16 3AH

Siop leol yn gwerthu cardiau, anrhegion a phethau vintage

DenbighSnowInSummer
@Snowinsummer_shop
@snowinsummer33




| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | | 3 | | | | 5 | |
| | | 2 | | 4 | 8 | 9 | | |
| 9 | 3 | 6 | | 5 | | 4 | 1 | 8 |
| | 6 | | | 7 | | | 9 | |
| 3 | | | | | | | | 4 |
| | 4 | 9 | | 3 | | 7 | 8 | |
| 6 | 2 | 3 | | 9 | | 5 | 7 | 1 |
| | | 1 | 7 | 2 | | 6 | | |
| | 9 | | | | 5 | | 2 | |

Y BIGWN

# YN EISIAU!

Aelodau newydd i ymuno â thîm golygyddol bychan Y Bigwn, i ddechrau o fis Hydref 2022.

Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn hanesion a chymeriadau lleol?

Ydych chi eisiau cyfrannu mwy i'r gymuned leol?

Ydych chi awydd sialens newydd?

Os ydi'r ymateb yn bositif i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, cysylltwch â ni yn Y Bigwn am fwy o wybodaeth.

Ebost – gwybod@ybigwn.cymru neu ybigwn@hotmail.co.uk

Stan Lyall (01745 813659) neu

Sian Rogers (01745 813368)

# Ceri Ellis ac Adran yr Urdd, Treuddyn

Sefydlwyd Adran Gyntaf yr Urdd yn Nhreuddyn, Sir y Fflint yn 1922, blwyddyn y sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru gan Syr Ifan ap Owen Edwards trwy ei apêl yn y cylchgrawn Cymru'r Plant. Cyn diwedd y flwyddyn roedd gan Adran Treuddyn 97 o aelodau ac yn cynnal gweithgareddau Cymraeg yn gyson.
Yn 16 oed roedd Marian Williams o Fferm y Llan yn gerddor dawnus ac yn awdures doreithiog a oedd wrth ei bodd yn ysgrifennu penillion a dramâu ar gyfer y plant. Roedd yn cyfrannu'n rheolaidd i Cymru'r Plant felly does ryfedd iddi fod ymhlith y cyntaf i ymuno â'r Urdd.
Aeth o gwmpas cartrefi'r fro ar gefn ei beic yn eu cymell i ymuno â'r rhengoedd. O fewn mis yn unig roedd wedi codi o fod yn Is-gapten i Uwch-gapten ac erbyn Ionawr 1923 hi oedd Cadfridog cyntaf Urdd Gobaith Cymru.
Ond mi wnaeth Marian Williams lawer mwy na hel aelodau. Hi drefnodd y cyfarfodydd wythnosol yn festri Capel y Rhos, yr ymarferiadau canu, dawnsio ac adrodd ar gyfer cyngherddau ac eisteddfodau di-rif. Roedd hi hefyd yn gyfrifol am lu o ddramâu a oedd yn llawn hwyl i actorion a'r gynulleidfa fel ei gilydd.
Roedd Eiluned Milne (Eiluned Roberts gynt) yn chwaer i Elwyn Roberts, tad Ceri Ellis o Ddinbych, ac wedi ymuno â'r Adran yn 11 oed. Meddai Eiluned," Roedd y cyfarfodydd yng Nghapel Ebenezer bryd hynny. Ymarfer canu a dawnsio ar gyfer eisteddfodau a chystadlaethau oeddem ni rhan fwyaf. Gan nad oedd yna lawer i'w wneud yn y pentref, roedd yr Adran yn boblogaidd iawn. Roedd Marian yn ysgrifennu dramâu bach ar ein cyfer. Rwy'n cofio fy nghyfaill wedi gwisgo fel nain oedrannus – roedd hi'n edrych yn fendigedig!"



Cafodd y llun ei dynnu yng ngardd Fferm y Llan a phawb wedi gwisgo i ganu penillion.
Deuai rhieni Ceri o fferm Ty'n Coed, Treuddyn ac yno y magwyd Ceri (neu Ceridwen i'r teulu). Daeth Ceri a Henri yma i fyw yn Ninbych yn 1972.
Eleni mae pentref Treuddyn yn dathlu can mlynedd ers sefydlu'r adran gyntaf yn eu pentref ac yn ddiweddar mewn man canolog yn y maes parcio yn ymyl Neuadd y Pentre yn y pentref, dadorchuddwyd Cofeb gan Myrddin ap Dafydd i nodi taith a llwyddiannau'r Urdd dros y can mlynedd diwethaf.

**Daw'r dyfyniadau uchod o'r llyfr 'Urdd Gobaith Cymru Treuddyn 1922-2012' Lorna Jenner, Llyfrau Alyn.**
**Diolch i Ceri Ellis am ei help a'i chydweithrediad. (gol.)**

# Dyfodol ansicr ein tref ni

Roedd hi'n ganol bore Sadwrn sych yn ystod Tachwedd pan wnaethom ni fentro i Ddinbych i wneud ychydig o siopa, ac o'n blaenau roedd sefyllfa drist iawn.
Roedd hi'n hynod o dawel ar Stryd y Dyffryn- fawr o geir a llawer llai o fforddolion.
Yna cyrraedd y Stryd Fawr a gweld - pe bawn yn iau ac yn fwy heini - byddai modd cicio pêl ar ei hyd hi heb amharu ar neb achos doedd fawr o neb yno.
Beth sydd wedi digwydd i'n tref ni? Roedd bore Sadwrn yn arfer â bod yn hynod o brysur. Ydach chi'n cofio pobl yn sefyll yn gynffon hir tu allan i siopau cigyddion a siopau bara?
Bellach does gennym ni yr unman yn y dref er mwyn prynu esgidiau na sannau newydd heb sôn am ddillad. Prin iawn ydy'r siopau arbenigol yma.
Ac yn goron ar y cwbl fydd gennym ni ddim banc yn y dref hon ar ôl Awst 2023 gyda banc HSBC y diweddaraf i droi 'u cefnau arnom ni. Dim un banc – mae'r peth yn arswydus i lawer ohonom.
Bydd, fe fydd gennym ni gymdeithasau adeiladu a swyddfeydd post, ond faint o ddyfodol sydd i rheiny pan fo pwyslais ar elw i'r cwmni a'r cyfranddalwyr yn hytrach na gwasanaeth i'r gymdogaeth?
Beth ddigwyddodd i'r rheolwr banc yn y wardrob a'r ferch yn yr hysbyseb ISA baby? Aeth hynny oll i ddifancoll.
Ar ôl cyflawni ein siopa yn Ninbych fe aethom ni draw i Ruthun gan ein bod ni eisiau mynychu siop arbenigol hen ffasiwn.
A dyna i chi wrthgyferbyniad rhwng dwy dref sydd mor gyfagos.
Y maes parcio yng ngwaelod y dref yn orlawn a phobl yn gorlifo'r palmentydd. Pob caffi yn llawn dop hefyd gydag un perchennog yn d'eud nad oedd lle i ni am hanner awr o leiaf.
Roedd hi'n ddiwrnod Gŵyl Nadolig yn y dref gyda phobl o bell ac agos wedi dod draw i fwynhau'r gweithgareddau a blasu'r bwyd.
Ond wnaethom ni ddim aros yno'n hir ond yn hytrach troi am adref ac anelu am fwyty yn rhan uchaf y dref. A dyna i chi groeso gawsom ni yno, a bwyd ardderchog i ganlyn.
Oedd, roedd yna fwy o bobl o gwmpas erbyn hyn, ond doedd hi ddim fel y bu hi rai blynyddoedd yn ôl.
Oes. mae yna golled ar ôl Woolworth a sawl siop arall, ond a oes yna fai arnom ni hefyd? Onid y ni sydd wedi cael ein swyno gan wneud popeth ar-lein, o fancio i brynu nwyddau gan gwmnïau megis Amazon?
Yr hyn a heuir a fedir wedi'r cwbl.

**Stan Lyall**


## Bag y Bigwn

| | |
|---|---|
| Gwyneth Kensler | £40 |
| Meinir a Iori Roberts | £20 |
| Dafydd ac Alwena Williams | £10 |
| Maldwyn Evans | £10 |
| Janice Jones | £10 |
| Helena Williams | £10 |
| Eira Denman | £10 |
| Ann Jones Evans | £20 |

# Cornel y Plant

Llun i'w liwio





Cysylltwch y dotiau i ddarganfod beth sydd yn y llun ac wedyn cewch ei liwio

# Cadair Gwilym R



Hanesyn difyr iawn yw hwn, os mai difyr yw'r gair i'w ddefnyddio mewn cyfnod mor fain, mor ddidrugaredd ac mor ddreng.
Mae Bryn Mawr, mwy neu lai ar y ffin rhwng yr hen siroedd Brycheiniog a Mynwy a thros 1,300 o droedfeddi uwchlaw'r môr - lle rhynllyd braidd ar dywydd oer a garw.
Ar ôl cyfnod eithriadol o lewyrchus yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf (oherwydd cysylltiad yr ardal â'r pyllau glo) daeth tro ar fyd a buan iawn, oherwydd y dirwasgiad, y rhwygwyd y gymdeithas glos, a dyma gyfnod ymfudo mawr a rhwng dechrau'r dau ddegau a diwedd y tridegau yn y ganrif ddiwethaf cefnodd bron i 390,000 o Gymry eu mamwlad, ffarwelio mewn gobaith am fywyd gwell. Roedd hi'n sefyllfa argyfyngus a'r gymdeithas yn gwegian dan y straen, ond fel maen nhw'n dweud , "Daeth haul ar fryn". Yr haul hwnnw oedd aelodau brwd Mudiad y Crynwyr.
Roedd y Crynwyr, oherwydd eu mentergarwch, eu dycnwch a'u gofid a'u pryderon am eraill yn benderfynol o fynd â'r maen i'r wal, ac i wireddu'r freuddwyd honno, aed ati i addasu ac adeiladu canolfannau i gynnig hyfforddiant mewn gwahanol grefftau i gannoedd oedd yn gwingo i fynd ati eto i ennill eu bara beunyddiol yn hytrach na dibynnu ar y wladwriaeth am eu briwsion.
Yn dilyn brwdfrydedd y gweithwyr a hyfforddiant eu hathrawon, ymhen ychydig amser, daeth crefftwyr Brynmawr â bri ac enwogrwydd i'r ardal yn enwedig eu seiri coed, a mawr fu'r galw am eu cynnyrch - dodrefn a werthwyd dros y byd i gyd.
A dyna i chi ran gyntaf y stori fach yma. Dechrau'r ail ran yw galwad ffôn tua chanol mis Mai 2010, blwyddyn cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy. Gŵr o'r enw Frank Olding, un â'i wreiddiau yn naear ardal y 'Steddfod oedd yn galw. Eisiau gwybod oedd o beth fu hanes a thynged cadair Eisteddfod 1938 a gynhaliwyd yng Nghaerdydd - cadair Gwilym R, trysor a enillodd am ei awdl 'Y Bryniau Pell'. Ar y pryd, roedd Frank yn aelod dylanwadol ar Bwyllgor Gwaith Eisteddfod Glyn Ebwy ac, oherwydd ei ddiddordeb yn 'Y Pethe', gwyddai am y cysylltiad rhwng Gwilym R a chadair Eisteddfod Caerdydd a Brynmawr a llifodd yr hanes dros y ffôn. Roedd hi'n 'sgytfa inni gael gwybod am gysylltiad y gadair â sefyllfa druenus pobol Brynmawr adeg ei saernïo, rhywbeth a'i gwnaed yn fwy gwerthfawr fyth inni. Pwrpas yr alwad oedd cais i gael benthyg y gadair dros gyfnod y 'Steddfod i'w harddangos, ynghyd â chelfi eraill a saernïwyd yn ystod yr un cyfnod, yn amgueddfa'r dref. Doedd dim rhaid iddo ofyn yr ail waith. "A chroeso", fu'r ymateb parod gyda balchder y cai'r gadair a'i hanes, sylw unwaith yn rhagor. Roedd 'rhen Frank ar ben ei ddigon a gwnaed trefniadau i'w chludo 'adref' yn ôl.
Gŵr o'r enw Alan Williams a'i fab yng nghyfraith, gafodd y cyfrifoldeb i ddod i nôl y gadair. Brodor o Frynmawr yw Alan, gŵr oedd wedi gwirioni'n bot o gael y cyfle i groesawu'r 'Steddfod i'w 'ardd gefn' fel y dywedodd. Er na allent siarad yr iaith, roedd eu hagwedd at Gymru a Chymreictod yn codi calon dyn a chafwyd sgwrs ddifyr dros ginio. Ond, oherwydd pellter y daith yn ôl tua'r de, rhaid oedd ei thorri yn ei blas a ffarwelio â'r ddau, a'r gadair, a eisteddai'n ddel yng nghefn y fan. Y nhw hefyd ddaeth â hi'n ôl ymhen pythefnos. Byth ers hynny, rydym yn anfon cardiau Nadolig i'n gilydd - cardiau yn iaith y 'Steddfod wrth gwrs, ffordd dda o gadw mewn cysylltiad.
**Yr amryddawn Bob Morris ddaeth â'r stori fach yma i'r fei yn ddiweddar yn ystod un o'i ddarlithoedd difyr ar Zoom.**

**Berwyn Roberts**

**CADAIR YR EISTEDDFOD (Y Brython – Awst 4, 1938)**
**O GYNLLUN A DEFNYDD CYMREIG**
Y mae'r gadair farddol a gynigir gan Bwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd eleni yn un o'r rhai harddaf a gynigwyd erioed gan unrhyw bwyllgor Eisteddfod.






Fe gofia ein darllenwyr fod Mr. Iorwerth C. Peate, ceidwad Adran Diwylliant a Diwydiant Gwerin yn yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd, ac eraill, wedi beirniadu'r cadeiriau a roddwyd mewn eisteddfodau yng nghwrs yr ugain mlynedd diwethaf fel rhai estronol a di-chwaeth o ran cynllun a chrefftwaith. Dywedwyd, yn briodol iawn, mai cadair syml o ddefnydd a chrefftwaith Cymreig a ddylid ei rhoddi yn yr ŵyl genedlaethol, a bod hyn yn gyfle i feithrin chwaeth dda mewn gwaith coed a dodrefnwaith yng Nghymru.

## Y CADEIRIAU ESTRONOL

Cafwyd cadeiriau gorwych gan Gymry alltud o Seinia, Uganda, Seland Newydd ac Awstralia, yn rhoddion ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yng nghwrs y blynyddoedd diwethaf ac er bod y critigyddion yn gwerthfawrogi'r rhoddion hyn, a'r sêl a'u cymhellodd barnant mai anaddas oedd rhoddi gwaith crefftwyr o gyrrau pell y byd, a gynrychiolai gelfyddyd a thechneg dieithr, yn wobrau i awduron yr awdlau buddugol yng Nghymru, ac nad oedd y rhain yn gyfraniadau i grefftwaith Cymreig.

**O DDERW CYMREIG**

Ond fe symudir pob cwyn gan y gadair farddol hardd a roddir i'r awdlwr gorau eleni. Fe'i cafwyd yn anrheg gan Gymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd, a'i gwneuthur gan grefftwyr Cymreig o Frynmawr.

**Ein diolch i Wasg Carreg Gwalch am eu caniatâd i ddefnyddio peth o gynnwys un o Lyfrau Llafar Gwlad, rhifyn 78, sef Celfi Brynmawr, yn y rhifyn hwn o'r Bigwn.**

**Berwyn Roberts**

J&G Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
ACCA
Cymraeg

# Y Prifardd Gwilym R. Jones a Phêl-droed




Ysgrifennodd y Prifardd Gwilym R. Jones, stori i fechgyn am bêl-droediwr o Gymro ifanc. Gwilym R. oedd Alun Owen, awdur **Dewin y Bêl.**
Roedd Gwilym R. wrth ei fodd pan dderbyniodd ragymadrodd i'r llyfr gan un o'i arwyr mawr, y pêl-droediwr John Charles (Cymru a Juventus ar y pryd) ac ysgrif bonheddwr mawr y bêl gron oedd mor danbaid dros Gymreictod.
Dyma ran o'r ysgrif gan John Charles," Y mae balchder yn eich etifeddiaeth genedlaethol yn beth da ac os helpa'r balchder hwnnw i danio uchelgais sbortsmyn Cymreig ifanc i gynrychioli eu gwlad ar y caeau socer yn ogystal ag ar y meysydd rygbi, y mae hynny'n beth iach. Pan oeddwn yn fachgen yn Abertawe yr oedd yr un uchelgais ynof ag sydd mewn lliaws mawr o fechgyn Cymreig eraill – yr oedd arnaf eisiau chwarae i'm gwlad. Bûm yn ffodus i allu cyflawni'r uchelgais hwn….
Y mae'n bleser gwirioneddol gennyf i ysgrifennu Rhagair i stori ar gyfer bechgyn Cymru am fachgen o Gymro a chwery'r gêm socer. Hyderaf y daw rhai o'r darllenwyr yn sêr socer Cymreig yn y dyfodol……"
Derbyniodd John Charles gradd M.A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1999. Cyflwynwyd yr un anrhydedd i Gwilym R. gan Brifysgol ei wlad a'i chyflwyno gan y diweddar Athro Melville Richards.
Mae gan y teulu stori dda am Gwilym R. yn prynu petrol i'w fodur yng Nghaerdydd a Trevor Ford, pêl-droediwr enwog arall a oedd yn arwr iddo a pherchennog garej yn y brifddinas, yn dod i roi ei wasanaeth wrth y pwmp. Rhoddodd y bardd bunt o gildwrn i'r blaenwr yn ei lawenydd o gyfarfod ag ef – hanner cyflog dydd llawn i'r newyddiadurwr!

**Diolch am ganiatâd i ddefnyddio dyfyniadau o Bro a Bywyd Gwilym R. Jones 1903 -1993** **(gol.)**


Gwilym R. Jones


John Charles

# O'r Llyfrgell





**Gŵyl Ffuglen Llyfrgelloedd Sir Ddinbych**

Cawsom fore gwych fel rhan o'r ŵyl gyda'r sesiwn cwrdd â'r awdur Elen Wyn yn Llyfrgell Dinbych yn ddiweddar. Cyflwynwyd Elen a llywiwyd y drafodaeth yn hynod gelfydd gan Elin Jones, aelod o Glwb Darllen Sgwrs a Sangria. Mwynhawyd sgwrs hynod ddifyr am ei nofel newydd Bwrw Dail ac am ei hanes fel awdur. Cafwyd ymateb ragorol gyda nifer o gwestiynau am ei nofelau a heriodd Elen y gynulleidfa gyda chwis diddorol ar enwau tai pobl lenyddol. Cafwyd cyfle i gael arwyddo copïau o'r nofel gan yr awdur ar ddiwedd y sesiwn. Diolch o galon i Elen am ei hamser gwerthfawr yn cynnal sesiwn hyrwyddo. Rydym yn falch ei bod yn ystyried ei hun erbyn hyn yn un o dre a Dyffryn Clwyd! Dewch draw i roi cynnig ar ddarllen un o'i nofelau.

**Croeso Cynnes yn eich Llyfrgell leol**

Dewch draw i fwynhau lle diogel i gadw'n gynnes gyda chwmni, paned a sgwrs y gaeaf hwn. Mae'r llyfrgelloedd yn Sir Ddinbych yn cynnig lle cyfforddus a chroesawgar yn ystod y dydd gyda gwasanaethau amrywiol megis dewis eang o lyfrau i bob oed, cylchgronau, jig-sôs, cyfrifiaduron a wifi am ddim. Dewch i ddarllen, astudio, ymlacio, ymuno a chymdeithasu.

Dymunwn Nadolig Llawen iawn i'n darllenwyr. Bydd croeso cynnes i aelodau hen a newydd yn ein llyfrgelloedd yn 2023.


/gwasg.com PRINT

ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO

Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 · info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd

Mark John Young



Dinbych Isaf - Annibynnol

Symudol: 07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

# YSGOL TWM O'R NANT

Gyda'r flwyddyn bron ar ben, rydym yng nghanol bwrlwm sioeau Nadolig wrth i'r pwt yma fynd i'r wasg, a phob un uned wedi cynhyrchu sioe arbennig. Braf yw cael gweld y neuadd yn llawn o rieni unwaith eto, a'r plant i gyd yn perfformio yn fyw.

Cynhaliwyd ffair lewyrchus iawn gyda stondinau lu ddechrau'r mis. Mawr yw ein diolch i aelodau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am yr holl waith trefnu. Roedd awyrgylch bendigedig a phawb yn brysur yn gwario a phrynu.

Diolch i staff y gegin am baratoi cinio Nadolig blasus i ni i gyd eto eleni. Roedd hi'n wledd a phawb wedi mwynhau. Doedd dim llawer o waith y prynhawn hwnnw gan bod pawb mor llawn ar ôl eu cinio!





Rydym yn gobeithio bydd Sion Corn yn galw yn yr ysgol cyn i ni gau ac y bydd pawb yn mynd i'w wely yn gynnar ar noswyl Nadolig i'w ddisgwyl yn eiddgar. Dymunwn Blwyddyn Newydd dda i bawb gan holl blant a staff Ysgol Twm o'r Nant.

**Uned dan 5**

Mae'r uned dan 5 yn fwrlwm o brysurdeb wrth inni baratoi ar gyfer y Nadolig.

Ar brynhawn a nos Fawrth Rhagfyr y 13eg perfformiodd y dosbarth Derbyn eu cyngerdd Nadolig 'Lliwiau'r Nadolig'. Roedd y plant wedi ymarfer yn galed ac wedi dysgu eu gwaith yn fendigedig. Cawsom berfformiad rhagorol. Ar fore Iau Rhagfyr y 15fed perfformiodd y plant Meithrin ystod o ganeuon Nadolig i rieni a theulu a chafwyd mins pei a phaned i ddilyn.







Mae'r plant wedi bod yn mwynhau nifer o weithgareddau Nadoligaidd gan gynnwys gwneud cardiau Nadolig, llusernau lliwgar ac addurniadau Nadolig.






Ar Ddydd Iau Rhagfyr yr 8fed cawsom ginio Nadolig. Roedd pawb wedi mwynhau. Diolch yn fawr iawn i staff y gegin am baratoi bwyd blasus iawn.
Nadolig Llawen iawn i chi gan bawb o'r Uned Dan 5

**Uned dan 7**

Bu'r plant wrth eu bodd yn dysgu am hanes eu 'Milltir Sgwâr' yn ystod ein thema yr hanner tymor diwethaf. Cafodd pawb lu o brofiadau dysgu difyr. Daeth Mr Clwyd Wynne o'r Archif lleol i ddangos hen luniau o adeiladau pwysig Dinbych i ni. Roedd pawb wedi rhyfeddu gyda'r holl hanes diddorol sydd ar stepen ein drws ni.
Cawsom gyflwyniad difyr am Bwll y Grawys a Dr Evan Pierce gan ffrind arbennig yr ysgol, Miss Davies. Mae'r plant wedi bod wrth eu bodd yn dysgu ffeithiau newydd a gweld sut oedd bywyd yn edrych yn Ninbych ymhell cyn eu hamser nhw.




Buom yn ffodus iawn o gael ymweliad i'r llyfrgell hefyd, ble cafodd y disgyblion gyfle i wrando ar stori, ymaelodi a dysgu ychydig am hanes yr adeilad.





Diolch arbennig i un o rieni'r Uned, Andras Iago, am gynnal Gwasanaeth hyfryd yng Nghapel Mawr y dref i ni ar ddiwedd ein thema. Cawsom gyfle gwych yma i ymweld â dysgu am adeilad hanesyddol arall y dref. Roedd y plant wedi synnu wrth ddysgu mai yn festri'r capel roedd Ysgol Twm o'r Nant wedi ei sefydlu'n wreiddiol.





I gloi'r hanner tymor, bu'r disgyblion yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer ein sioe Nadolig. Roedd pob un yn wych ac yn serennu ar y llwyfan wrth berfformio 'Nadolig yn Rwla'. Braf oedd cael perfformio yn fyw o flaen cynulleidfa unwaith eto.
Edrychwn ymlaen i gael trip i Theatr Twm o'r Nant a gweld sioe Deian a Loli yno, profiad perffaith i'r plant gael ddathlu diwedd ein thema a tymor prysur o waith.

**Uned dan 9**



Buom yn brysur yn creu crefftau'r Nadolig. Bu pawb yn ddiwyd yn pwytho i greu cerdyn i roi i'w teulu neu ffrindiau ac fe fuom yn creu papur er mwyn cael gwneud ein calendrau eleni. Fe wnaethom ychydig o lanast wrth greu y papur ond rydym yn teimlo yn falch iawn o gael y cyfle i ailgylchu hen bapur yr ysgol i greu calendr deniadol.







Bu rhai plant o'r uned yn canu carolau yng nghartref Llys Meddyg. Cawsom groeso cynnes yno a'r henoed i gyd yn falch iawn o'n gweld. Diolch i'r Cartref am ein gwahodd ac am y fferins a gafodd y plant.



Cafodd bawb yn yr uned gyfle i berfformio Sioe ‘Nadolig yr anifeiliaid’ yr wythnos yma. Sioe oedd hon wedi ei seilio ar gymeriad Plop y dylluan, allan o’r llyfr yr ydym wedi bod yn ei astudio yn ein gwersi Saesneg yn y dosbarth sef ‘The Owl who was afraid of the dark’. Roedd y prif gymeriad sef Plop yn mynd am dro i geisio goresgyn ei ofn am y nos ac yn dod ar draws golygfa y geni. Gyda chymorth ei ffrindiau, sy’n anifeiliaid, maent yn ei berswadio i beidio ofni’r nos ac i fod yn dylluan nosol unwaith eto. Mwynhaodd pawb y profiad o gael actio a chanu, ac mae’r plant a’r staff yn haeddu seibiant rwan ar ôl yr holl ymarfer.
Edrychwn ymlaen ar ddiwedd y tymor i gael parti i ddathlu am yr holl waith caled yr ydym wedi ei wneud y tymor yma ac yna gwyliau bendigedig o seibiant dros yr Ŵyl.
Dymuna pawb yn yr uned Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi i gyd.

**Uned dan 11**

Cawsom ymwelydd pwysig iawn y tymor yma. Na, nid Gareth Bale, ond PC Gareth lle'r oedd yn dysgu'r disgyblion am bwysigrwydd i fod yn ofalus ar lein ac am seibr fwlio.
Hoffwn longyfarch Mati Nel am ei llwyddiant yn yr Eisteddfod gyda'r gystadleuaeth CogUrdd gan iddi ddod yn fuddugol trwy'r Sir! Roedd Mati wedi paratoi brechdan Mr Urdd llawn choritso a chaws a letys blasus iawn i’r dyfarnwyr.
Ond roedd llawer iawn o baratoi ar gyfer y sioe Nadolig y mis yma wrth i'r disgyblion faglu ar draws ei gilydd yn yr 'Ymarfer ola.'Ac wrth gwrs mi wnaethon nhw berfformio yn wych, chwarae teg iddyn nhw. Er roedd ambell i 'hic-up'....doedd Mair ddim wedi cyrraedd ac roedd dadlau croch ymysg angylion, a bu'r Sat Nav yn arwain y tri gŵr doeth i dy Mrs Williams! (roedd hyn i gyd yn y sgript wrth gwrs). Llwyddodd y disgyblion i roi gwên ar wyneb y gynulleidfa a chael pawb yn eu hwyliau ar gyfer yr Ŵyl. Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda gan Uned dan 11.

**Cyfarfod Blynyddol Y Bigwn yng Nghapel y Fron Nos Fercher, Ionawr 18fed am 7yh**

sir ddinbych denbighshire County Council
CYMRAEG
Yn gweithio i
gryfhau’r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o’r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd, Cartwnydd
Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o’ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig. Lluniau o bob maint
Cysylltwch â Huw ar
01745 812184

# Ysgol Glan Clwyd

**Ymddeoliad**
Daeth hi'n ddiwedd cyfnod ar Carys Williams wrth iddi ymddeol o'i swydd fel derbynnydd yr ysgol am dros ddeugain mlynedd, cyfnod lle gwelwyd ei hymrwymiad arbennig a'i theyrngarwch i Ysgol Glan Clwyd. Dechreuodd Carys ar ei swydd ym 1981 ac mae hi wedi ymroi'n llwyr i'r ysgol ers hynny gan fod y cyswllt cyntaf i rieni ac ymwelwyr wrth iddynt ymwneud â'r ysgol. Dymunwn y gorau iddi ar ei hymddeoliad a hoffem ddiolch iddi am ei chyfraniad enfawr i fywyd Ysgol Glan Clwyd dros y blynyddoedd.



**Chwarae i Gymru**
Dyna oedd hanes Megan Galleandro a Cadi Doran wrth iddynt gael eu dewis i gynrychioli tîm merched Cymru yn erbyn Lloegr yn ddiweddar ym Mharc San Siôr. Tipyn o gamp!

**Llwyddiant yng Ngŵyl Gerdd Dant, Bro Nansi**
Llongyfarchiadau mawr i Nansi a Nel o flwyddyn 8 ddaeth yn ail ar y ddeuawd Cerdd Dant Oedran Uwchradd.



**Twrnament Rygbi Blwyddyn 9**
Llongyfarchiadau i fechgyn blwyddyn 9 ar ddod yn fuddugol a churo twrnament rygbi Gogledd Ddwyrain Cymru yn ddiweddar. Llwyddodd y bechgyn i brofi eu sgiliau medrus yn erbyn saith ysgol wahanol yr ardal gan gyrraedd uchafbwynt drwy guro Ysgol Dinas Bran yn y gêm derfynol 10-0.



**Taith Glan Llyn**
Cafodd rhai o ddisgyblion Bl12 sy'n astudio'r Gymraeg gyfle i fynd ar gwrs preswyl yn ddiweddar - cwrs sy'n cael ei drefnu ar y cyd rhwng Glan Llyn a Phrifysgol Bangor yn cynnig darlithoedd ar agweddau o'r cwrs. Profiad gwych i'r disgyblion a digon o amser ar gyfer mwynhau'r gweithgareddau hefyd! Dyma nhw yn ymweld â'r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn.



**Gweithdy STEM**
Mwynhaodd disgyblion bl7 ac 8 weithdy dan arweiniad staff Airbus wrth gynllunio a datblygu deunydd 'teithiol'. Braf oedd cael croesawu yn ôl atom un o'n cyn-ddisgyblion,Trystan Roberts,Trefnant oedd yn rhan o'r tîm Airbus ac sydd wedi cwblhau prentisiaeth gyda'r cwmni.



**Diwrnod Enfys**
Codwyd dros £1700 mewn diwrnod codi arian at Ward Enfys, Ysbyty Glan Clwyd. Roedd llond y lle o weithgareddau megis tatŵ ar y wyneb, dyfalu enw tedi ynghyd â stondin gacennau ac fe gyfrannodd y disgyblion yn hael at yr achos teilwng hwn.

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*
**R.W.Roberts a'i Fab**
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
National SAIF Independent Funeral Directors

**MEIRION DAVIES A'I GWMNI**
**01745 812400**
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

**Coleg Pengwern**
Diolch i griw o ddisgyblion hŷn yr ysgol am ganu mewn noson Nadoligaidd hyfryd yng Ngholeg Pengwern yn ddiweddar. Braf medru rhannu talentau ein disgyblion hefo'r gymuned leol.

**Gwers Ffrangeg Ysgol Tremeirchion**
Diolch i Lily Roberts ac Imogen Williams o flwyddyn 12 am baratoi gwers Ffrangeg i ddisgyblion blwyddyn 1 a 2 Ysgol Tremeirchion. Roedd pawb wedi mwynhau! Très bien!

**Wal Goch Ysgol Glan Clwyd**
Er gwaethaf siom tîm Cymru yng Nghwpan y Byd, bu'r diwrnod o wylio'r gêm yn un bythgofiadwy i bawb.  Crêwyd ardaloedd gwych i wylio'r gêm gyda'n gilydd a mwynhau bob munud o'r awyrgylch Cymreig.  Roedd Llyr Edwards, gohebydd y BBC yn bresennol a lluniau o'r sesiwn gwylio'r gêm wedi'u dangos ar newyddion Prydain. Mor falch oeddem o gyfraniad ein disgyblion wrth iddynt gael eu cyfweld ar raglenni newyddion y noson honno.



Holl ddisgyblion yr ysgol yn mwynhau gwylio hwyl yr ocsiwn ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen.

**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Roedd digon o hwyl i'w gael wrth i bawb gefnogi Diwrnod Plant Mewn Angen.  Yr uchafbwynt oedd yr ocsiwn cyhoeddus yn yr Hafan pryd y bu Mr Tomos Williams, athro Drama yn gweithredu fel ocsiwniar.  Mwynhaodd yr holl ddisgyblion y sioe o wylio athrawon yn prynu disgyblion y 6ed, oedd yn eu gwisg ffansi doniol, i wneud tasgau ar eu rhan. Diwrnod arall i'w gofio!

**Cyfle gwych gan gynllun Nerth Dy Ben**
Braint oedd cael fy newis i fod yn rhan o weithdy Nerth dy Ben gyda chriw talentog iawn yn cynnwys Osian Candelas, Gwenan Mair Theatr Clwyd ac Alaw Owen, Nerth dy Ben i enwi dim ond rhai ohonynt. Roedd aelodau y mudiad yma yn dod o gefndiroedd gwahanol ond gyda'r un nod sef helpu pobl ifanc i ddod yn gyfarwydd â'u nerth nhw.
Roedd y criw o artistiaid profiadol yn awyddus i gael llais pobl ifanc felly dyma fy nghyfraniad i fel rhan o'r gweithdy ynghyd â dwy ferch arall o Sir Conwy oedd yn bwysig iawn.
Yn gyntaf cefais hyfforddiant yn Theatr Clwyd lle dysgais sut i weithredu gweithgareddau lles a gemau ymarferol i ddatblygu hyder i agor allan a rhannu problemau. Cawsom ein dysgu gan yr artistiaid profiadol sut i fod yn arweinyddion i'r tîm creu allweddol a sut i gynnal y gweithdai creadigol. Yr wythnos ganlynol aethom â'r gweithdai i bedair ysgol uwchradd wahanol ar hyd Gogledd Cymru sef Ysgol y Creuddyn, Ysgol Dyffryn Conwy, Ysgol Maes Garmon ac wrth gwrs ein hysgol ni, Ysgol Glan Clwyd. Y bwriad oedd datblygu themâu o hunan hyder, nerth, gwerth a dod i wybod beth yw cryfderau pobl ifanc.
Cefais syndod i weld pa mor agored oedd rhai o'r bobl ifanc yn ein gweithdai a gwelais yr hyder yn datblygu yn fwy wrth iddynt ddod i fy adnabod i a'r tîm artistiaid yn well.
Roeddwn hefyd yn teimlo yn falch fy mod i a'r tîm yn gallu helpu pobl ifanc i fod yn fwy cyfforddus i drafod eu teimladau a phroblemau.
Rydw i'n credu'n gryf y dylai gweithdai fel hyn gael eu cynnal ar hyd ysgolion Cymru er mwyn hybu meddylfryd iach a phositif a chael pobl ifanc yn fwy hyderus i agor allan a gwerthfawrogi yr hyn y gallant wneud yn hytrach na meddwl yn negyddol.



Beca Williams bl10 fu'n rhan o weithdy Nerth dy Ben


**Cynghorwyr Sir Ddinbych**
**Eich Cynghorwyr Plaid Cymru**



Rhys Thomas - Dinbych Isaf
Delyth Jones - Dinbych Caledfryn a Henllan
Elfed Williams - Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae ein manylion cyswllt i gyd ar safle wê y Cyngor Sir


**Dathlu'r Nadolig**
Cafwyd noson o eitemau Nadoligaidd i 'Ddathlu Nadolig' yn yr Eglwys Gadeiriol ddiwedd y tymor.  Cafwyd perfformiadau o safon gan ddisgyblion o bob oed, a hyfryd oedd eu gweld yn ymroi i gymryd rhan yn y gweithgareddau allgyrsiol gan roi o'u gorau. Go dda chi!  Gwnaed casgliad tuag at Fanc Bwyd Sir Ddinbych.  Braf oedd gweld y gynulleidfa'n llawn o rieni a ffrindiau i Ysgol Glan Clwyd.  Diolch i bawb am gefnogi.

Gwefr heb Wifrau **AMGUEDDFA RADIO** Dilynwch ni ar flickr Cwmulus https://cwmulus.org/

**Darlith**

"Pam bod Cymru wedi anghofio am un o'i meibion cerddorol mwyaf disglair erioed?" oedd y cwestiwn ar wefusau pawb ar ôl gwrando ar ddarlith Mike Tayler yn ddiweddar. Mae Mike yn nai i Harry Parry ac yn ysgrifennu bywgraffiad am ei ewythr, y virtuoso jazz o Fangor oedd yn fyd-enwog yn y 1940au.

Ganwyd Harry Parry ar 22/01/1912 yn 60 Caellepa, Bangor, i gartref cerddorol. Pan oedd yn 10 oed, gofynnodd i'w dad a gâi ymuno â band. Erbyn 12 oed roedd yn medru chwarae bron pob offeryn yn y band a drymiau. Wedyn astudiodd theori gerddorol a dysgodd y clarinet. Dywedodd ei adroddiad ysgol ei fod yn 'gerddor wrth reddf'. Gadawodd yr ysgol yn 14 oed i weithio yn adran ffiseg y Brifysgol ond roedd hefyd yn chwarae yn yr Harold Dobbs Marina Band ddwywaith yr wythnos ym Mangor ac mewn lleoedd eraill ar draws yr ardal. Yn 1932 gadawodd ei swydd yn y Brifysgol i droi yn broffesiynol wrth ymuno â band Eddie Shaw. Symudodd i Lundain a bu'n chwarae alto-saxoffôn mewn nifer o fandiau enwog. Sefydlodd ei fand ei hun a dysgodd sut i recordio a darlledu cerddoriaeth. Gofynnodd Charles Chilton o'r BBC iddo chwarae ar raglen Jazz ar y radio a dyna ddechrau'r 'Radio Rhythm Club' llwyddiannus iawn. Datblygodd i fod yn gyflwynydd a chynhyrchydd y rhaglen, a nifer o raglenni eraill megys 'Jazz Club'a 'Tarry with Parry'. Un o nodweddion Harry Parry oedd ei fod yn egluro jazz i'w gynulleidfa ac yn croesawu cerddorion newydd i'r rhaglenni. Ysgrifennodd 1,000 o ganeuon gan gynnwys 'Champagne', ar gais cwmni recordio Parlophone. Bu'n teithio dramor i ddiddanu'r Lluoedd a gwahoddwyd ef i berfformio o flaen y Teulu Brenhinol. Harry Parry oedd yr enw mwyaf adnabyddus ym myd jazz yn y 1940au, 'Brenin Jazz'.

Dyma glawr un o'i gryno-ddisgiau




Pam bod Harry Parry, Cymro Cymraeg, wedi cael ei anghofio gan ei genedl ei hun? Pam yn wir? Bwriad ei nai wrth ysgrifennu'r bywgraffiad yw adfer y sefyllfa yma, gosod cofeb ar y tŷ cywir yng Nghaellepa (mae un wedi cael ei gosod yn barod ar y tŷ anghywir!), a chael ei ddinas enedigol i'w goffáu.

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**



Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn nodi Canrif y BBC gydag arddangosfa 'BBC 100 yng Nghymru' o Ragfyr 10fed, 2022 tan Ebrill 16eg, 2023. Bydd yr arddangosfa yn cyflwyno "taith drwy'r degawdau i ddysgu mwy am hanes y BBC yng Nghymru a sut mae canrif o ddarlledu wedi esblygu" – yn union fel sy'n digwydd yn Amgueddfa *Gwefr heb Wifrau* bob dydd.

**O'r casgliad**







Mae'r Amgueddfa wedi derbyn rhodd o ddwy record Disc Deiamwnt Edison o 1915-1929 yn ddiweddar. Mae nifer fawr o recordiau 78 RPM o nifer o ddegawdau yn y casgliad yn barod ond mae'r recordiau hyn yn wahanol. 80 RPM yw cyflymder y cylchdroi ond y gwahaniaeth mwyaf yw bod y sain wedi cael ei recordio mewn dull gwahanol i'r arfer a dim ond ar gramoffôn oedd â stylus deiamwnt roedd hi'n bosib eu chwarae. Cynhyrchwyd nhw mewn gwahanol feintiau, 10 modfedd oedd y mwyaf poblogaidd, a byddai'r record yn chwarae am 4 munud a hanner. Thomas Edison ei hun oedd yn dewis y gerddoriaeth, ond nid oedd yn gyfarwydd â cherddoriaeth boblogaidd y 1920au, jazz. Oherwydd hyn, a dull unigryw y recordio, daeth y math hwn o record i ben yn 1929. Mae'n bosib gwrando ar engreifftiau ohonyn nhw yn cael eu chwarae ar YouTube.

**Digwyddiadau'r dyfodol**

**Ar Ionawr 20fed, 2023 bydd Fiona Gale MBE, cyn-Archaeolegydd Sir Ddinbych, yn siarad yn Saesneg am Reilffordd Dinbych, Rhuthun a Chorwen yn Nyffryn Clwyd.** O'r 1860au hyd at yr 1960au gwasanaethwyd Dyffryn Clwyd gan reilffordd oedd yn cysylltu lein Dyffryn Dyfrdwy yn y de â'r ffordd ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Yn ddiweddar mae prosiect yn Rhuthun i ailwampio craen oedd yn gysylltiedig â'r rheilffordd wedi gweithio fel catalydd i brosiect ehangach, yn casglu atgofion am y rheilffordd, yn archwilio rhai o nodweddion y lein ac yn ymchwilio ychydig i'r hanes. Mae'r ddarlith yn agored i bawb ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan **Cwmulus** neu dudalen Facebook **Gwefr heb Wifrau** i gofrestru.

Ymweld â'r Amgueddfa

Yn ystod y gaeaf, pan fydd yr Amgueddfa ar gau, bydd yn bosib trefnu apwyntiad i ymweld â'r Amgueddfa ar unrhyw adeg. Cysylltwch â **gwybod@gwefrhebwifrau.cymru** **Croeso cynnes i bawb**

# Difyrion Digidol

Fy ngwaith i fel ymgynghorydd cynhwysiant digidol yw gweithio gyda mudiadau a sefydliadau sy'n gweithio'n bennaf trwy'r Gymraeg. Y nod yw cefnogi a chynnig hyfforddiant mewn sgiliau digidol er mwyn cefnogi eraill i ddefnyddio technoleg, tra ar yr un pryd yn hyrwyddo cynnwys Cymraeg ar y We.

Gallaf ddweud yn gymharol hyderus fod y rhan fwyaf o ddarllenwyr y golofn hon yn gyfarwydd gyda Word neu anfon ebost, ac o ganlyniad, cam naturiol wedyn yw datblygu ar hynny mewn gwahanol ffyrdd. Os ydych yn gyfforddus yn defnyddio Word neu ebostio, pam ddim mynd yn bellach i wneud bywyd yn haws?

Fel Cymunedau Digidol Cymru, mae gennym ddau gynllun yn mynd ati i gyflawni'r nod o annog pobl i ddefnyddio technoleg, ac un ffordd yw trwy gymorth hyrwyddwyr digidol, sydd fel arfer yn aelodau o staff, neu'n wirfoddolwyr hŷn neu ifanc yn y gymuned.

Mae'r cwrs hyrwyddwyr digidol yn sesiwn hanner diwrnod sydd am ddim ar gyfer gwirfoddolwyr neu staff rheng-flaen i feithrin sgiliau ar sut i gefnogi a chynorthwyo eraill yn ddigidol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys anogaeth a chyngor ar gefnogi newydd-ddyfodiaid a phobl sy'n llai hyderus wrth ddefnyddio ffonau clyfar, gliniaduron neu dabledi. Nid oes angen arbenigedd uwch mewn technoleg i fod yn Hyrwyddwr, dim ond awydd i gefnogi eraill a dealltwriaeth fras o dechnoleg. Y nod yw creu clwstwr o Hyrwyddwyr digidol trwy gyfrwng y Gymraeg led-led Cymru. Yn ogystal, bydd Hyrwyddwyr yn hybu a chodi ymwybyddiaeth dros gynnwys, adnoddau a phlatfformau digidol Cymraeg.

Fel dilyniant o'r Hyrwyddwyr, y bwriad wedyn yw cynnal sesiwn anffurfiol 'Tabled a Phaned' misol ar gyfer pobl sy'n gwirfoddoli o fudiadau cymunedol, papurau bro, eisteddfodau lleol, elusennau sydd ddim mor hyderus yn defnyddio technoleg, ac sydd angen cymorth ac yn awyddus i ddysgu mwy, a datrys problemau.

Y nod gyda'r sesiynau hyn yw hybu pobl i gymdeithasu yn Gymraeg ond hefyd i ddysgu sgiliau digidol newydd trwy amryfal bwnc o ddiogelwch ar-lein i adnodddau Cymraeg ar y We. Gall yr Hyrwyddwyr Digidol hwyluso'r sesiynau tra bod yr hyfforddiant yn cael ei gynnal ar sgrin rithiol. Yr ydym hefyd yn cynnig sesiynau yn benodol i roi cymorth trwy offer digidol i ddysgu Cymraeg.

Yn ail, mae'r cynllun Arwyr Digidol yn rhannu'r un nod â'r Hyrwyddwyr Digidol ond fod y sesiwn hon wedi'i hanelu at fyfyrwyr ysgolion cynradd neu uwchradd. Sesiwn ddwy awr yw hi sy'n cynnwys cyngor, cefnogaeth, a gweithgareddau difyr i bobl ifanc ar gefnogi pobl hŷn wrth ddefnyddio'r We. Byddai'r sesiwn yn anelu i godi ymwybyddiaeth am adnoddau Cymraeg i bobl ifanc ar y We, sydd wedi'i blethu â'r Cwricwlwm o ran offer digidol hanes lleol. Mae yna sgôp hefyd fel dilyniant o'r sesiwn yn yr Ysgol i gydweithio gyda chartrefi gofal lleol mewn datblygu prosiectau hanes lleol trwy'r digidol neu fel cyfeiriais yn flaenorol i adeiladu beic digidol er enghraifft.

Yr amcan yw y bydd y sesiwn ddechreuol yn arwain at ddatblygu prosiectau pontio cenedlaethau a gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc yn yr ardal leol mewn cartrefi henoed neu yn yr eisteddfod leol.

Os ydych chi'n gweld cyfle yma i redeg sesiwn Hyrwyddwyr Digidol yn eich Canolfan leol trwy gangen Merched y Wawr leol neu os ydych yn athro mewn Ysgol ac yn gweld budd cynllun Arwyr Digidol yn eich hysgol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

**Deian ap Rhisiart**

---

# 'BABY BASICS' DYFFRYN CLWYD

Ar ran tîm Baby Basics fe fyddwn i'n hoffi diolch i chi gyd am eich cefnogaeth chi eleni – am bob eitem sydd wedi cael ei brynu, am bob gwaith gwau a phob cefnogaeth ariannol. Os hoffech chi wybod mwy am waith yr elusen, neu os hoffech chi wirfoddoli ar foreau dydd Mercher, dowch i'r uned yn Ninbych am baned. Mae'r uned yng nghanolfan fusnes Trem y Dyffryn, drws nesaf i'r ganolfan ailgylchu ar Stad Colomendy.

**Heledd**



Heledd yn y stordy)




Basged i bobl sy'n gofalu am blentyn newydd

# Teyrnged i Robert Maldwyn Jones (Maldwyn Bod Awel)



Cynhaliwyd Gwasanaeth i Gofio ac i Ddiolch am fywyd Robert Maldwyn Jones, yng Nghapel Lôn Swan Dinbych.

Gwyddom na fu i Maldwyn fwynhau iechyd llawn ers rhai blynyddoedd ond fe ddaeth y newydd am ei farwolaeth yn annisgwyl.

Bu i Maldwyn fyw y rhan helaethaf o'i fywyd o fewn ei filltir sgwar. Fe'i ganwyd `ar aelwyd Tŷ'n Ffordd, - yn un o'r pedwar plentyn, - Blodwen, Maldwyn, Meirion ac Aledwen a anwyd i John a Winifred Jones a hwythau ill dau wedi profi'r hiraeth o golli cymar. Fe'i hunwyd yn un teulu estynedig o naw plentyn, yn cynnwys Mair, Elwyn, yr efeilliaid John a Margaret a Nancy.

Addysgwyd Maldwyn yn Ysgol Rhydgaled ac yna ymlaen i Ysgol Caledfryn, gan ddechrau ei yrfa waith ar fferm Bylchau Uchaf ac yna ymlaen i weithio i Gyngor Aled ac i'r Bwrdd Dŵr ar yr Alwen.

Ar ei briodas â Gwenda, symudodd rownd y gornel o Tŷ'n Ffordd i Bod Awel a fu'n gartref dedwydd a hapus iddynt ill dau ac mewn amser i Rhys a Siân.

Llanwyd bywyd Maldwyn gyda llu o ddiddordebau amrywiol. O fyw ym Mod Awel, fe gafodd y cyfle i ffermio, gan gadw amrywiaeth o anifeiliaid. Neilltuodd Maldwyn y rhan helaeth o gae ym Modawel i dyfu llysiau i gynnal ei deulu. Yn ôl yr hanes ymgollodd ei hun yn yr ardd a'r unig ffordd o ddod o hyd iddo oedd chwilio allan am fwg y bîb!

Cynaeafodd ei lysiau, a'u casglu i'r tŷ, ond dim pellach. Dyn yr awyr iach oedd Maldwyn, doedd e' ddim yn cael ei gyfrif yn gogydd Corden Bleu. Pan syrthiwyd y cyfrifoldeb ar Maldwyn i ofalu am Rhys a Siân am y diwrnod, yr unig ddewis ar y fwydlen amser cinio oedd ŵy wedi ei ferwi.

Roedd yn mwynhau canu ac adrodd, gan ennill ar adrodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan yn iau.

O ymddeol yn gynnar, ymunodd Maldwyn â Chôr Meibion Bro Aled a hynny ryw chwarter canrif yn ôl. Mi fedrech ofyn pam aros tan ei ymddeoliad? Teimlodd, am fod ei oriau gwaith yn amrywio o wythnos i wythnos, na fyddai yn deg. Doedd e' ddim am ymuno a'r Côr, heb ei fod yn gallu rhoi o'i oll, a rhoi o'i orau.

Mi roedd hynny yn wir ym mhob peth ym mywyd Maldwyn. Mi roedd yn gydwybodol ym mhob dim gyda'r cof amdano yn cerdded drwy eira mawr i'w waith, yn hytrach na pheidio.

Mi fyddai'n wir i ddweud, bod Maldwyn yn Gristion ac yn gapelwr, gyda dylanwad yr aelwyd a Chapel y Rhiw wedi aros ynddo. Gwasanaethodd Eglwys Ebeneser, yn ysgrifennydd a diacon dros nifer o flynyddoedd, a gofalodd am yr adeilad, gan hyd yn oed ddringo ar ben y tô i'w drwsio. Doedd dim byd yn ormod iddo i'w wneud.

Bu ei ffyddlondeb i Eglwys Iesu Grist yn ddiarhebol, ac yn fuan, o ymaelodi yma yn Lôn Swan, fe'i etholwyd yn ddiacon a'i gyfraniad ar y Sul yn ddidwyll a defosiynol.

Enillodd Maldwyn barch drwy ei bersonoliaeth dawel a chyfeillgar. Roedd yn berson cadarn gyda daliadau ac argyhoeddiadau cryf ac fe'i parchwyd gan bawb a'i hadnabyddodd.

O symud i lawr o Rhiw i Lôn Nant, mynegodd mai'r peth gorau am y lle oedd - 'bod gwell Internet.'

Gwnaeth Maldwyn ddefnydd mawr o'i gyfrifiadur, nid digon cysylltu ag Amazon ond o fewn cof y cyfrifiadur, mae stôr o gerddi ac emynau a gyfansoddwyd ganddo. Ni ai un flwyddyn heibio heb iddo gystadlu yn y Gymanfa ar gyfansoddi emyn.

Am y cerddi, a phenillion, fe'u hysgrifennwyd yn ddyddiol ar bob pwnc dan haul, ac ymhlith yr olaf a ysgrifennodd oedd y gerdd i 'Boris', 'Bywyd', 'Molawd i Gwenda ar Ddydd San Ffolant', a'r un a ddewiswyd i rannu yn ei angladd, - 'Bywyd a Marwolaeth'.

Mae'r dyddiaduron a gadwodd ac a ysgrifennodd ynddynt yn ddyddiol, yn gynhwysfawr, yn drysorau i'w darllen.

Roedd Maldwyn hapusaf yng nghwmni ei deulu, ymhlith y rheini a rannodd aelwyd ag ef - Gwenda, Rhys a Ceri, Siân a Trefor a'r to iau, Lois, Andrew, Kirin, Steffan a Guto. Cyflwynwn ein cydymdeimlad cywiraf â hwy a'i chwiorydd Blodwen ac Aledwen

Ym Maldwyn, cafwyd y dwys â'r direidi. Roedd yn ddyn teulu, yn llawn caredigrwydd, gyda dealltwriaeth lwyr â'r un a enillodd ei galon. Gofalodd am ei deulu a'i berthnasau, yn llawn consyrn am bawb a adnabyddodd.


Derbynwyd rhoddion o £1000 er cof am Maldwyn i Ymchwil Cancr Cymru.

## Atebion RHAGFYR 2022

**Ar Draws :**
8. Barbeciw
9. Ystwyth
10. Sain
11. Iasol
12. Brân
13. Arbennig
16. Wagner
18. Bardd
20. Milgi
21. Drud
22. Cobler
23. Gweledol
26. Tyst
28. Nesau
30. Bryn
31. Twmffat
32. Ategolyn

**I Lawr :**
1. Cadair
2. Eban
3. Ocsiwn
4. Cwis
5. Cyflawni
6. Ateb
7. Cyfareddu
14. Eiddil
15. Golwg
17. Godre
19. Arolygwr
20. Marchnata
24. Elusen
25. Olynydd
27. Taffi
29. Sian
30. Broc

## CROESAIR IONAWR 2023




**Ar Draws :**

6. Dod yn ôl i gyflwr blaenorol
7. Math o raffl i hel pres mewn ffair
9. Enw cyffredin ar gapel
10. Heb droseddu yn ôl y gyfraith
11. Casgliad o bysgod
12. 21 (2,2,6)
14. Ffrwyth gwyrdd tywyll, siap gellygen
16. Yn brifo i'r byw
18. Lle sydd hanner ffordd rhwng dau le arall
21. Had .... Môn, heuwch nhw'n gynnar mi ddôn
22. Brawd Gretel
24. Cred anrhesymol
26. Cefnogwyr pêl droed Cymru (1,3,3)
27. Cloriannu

**I Lawr :**

1. Nant
2. Dilledyn
3. Warws
4. Rhan o gytundeb
5. Gorchfygu
6. Ymchwiliad gwyddonol
8. Ychwanegu at ddiwedd dogfen
12. Mewn ..... mae nerth
13. Clefyd ymledol
15. Pàs gan asgellwr i flaenwr sgorio gyda'i ben
17. Derbyn eiddo yn dilyn marwolaeth
19. Mynachlog neu briordy
20. Gwneud eich hun yn lân gyda dŵr a sebon
21. Gwrthrych sy'n atynnu haearn
23. Brics adeiladu plastig
25. Llinyn o gotwm ar gyfer pwytho

**Garej Ffowndri**
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482



J.H.Jones & Co
Cigydd Teuluol
01745 81 2132
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych LL16 3BW

# CLWB PÊL-DROED DINBYCH




Liam Nash , rheolwr newydd yr Ail Dîm.




Gôl Nathan Brown (rhif 11) yn erbyn gôl-geidwad Y Rhyl yn y fuddugoliaeth o 2-1 yn erbyn CPD Y Rhyl 1879.

Cafodd y tîm cyntaf fuddugoliaeth arbennig o 2-1 yn erbyn CPD Y Rhyl 1879 wedi arddangosfa wych o bêl-droed mewn gêm gyda'r nos ym Mharc Canolog, Dinbych. Dominyddodd Dinbych y chwarae drwy gydol y gêm a daeth y goliau gan Nathan Brown a Jake Walker. Yr unig siomedigaeth y noson honno oedd na sgoriodd y tîm fwy o goliau wedi sawl cyfle i wneud hynny.

Wythnos yn ddiweddarach, fe drechodd Dinbych tîm Bangor 1876 yng ngêm Gwpan Cynghrair Lockstock Ardal y Gogledd o 3-1 gyda Paul Fleming y capten yn sgorio'r dair. Bangor 1976 oedd y ffefrynnau i ennill ond fe lwyddodd Dinbych i gipio'r fuddugoliaeth. Bydden nhw'n wynebu Llanfair United yn rownd yr wyth olaf mewn gêm gartref.

Mae gan Ddinbych hefyd gêm gartref yn Nhlws yr FAW wedi iddyn nhw guro Rockspur o ardal Abertawe o 6-1 yng nghanol mis Tachwedd. Eu gwrthwynebwyr nesaf fydd Penydarren Seniors o Ferthyr Tudful ar ddydd Sadwrn, Ionawr 28ain.

O ganlyniad i'r tywydd oer diweddar, mae sawl gêm wedi ei gohirio gan fod y maes chwarae wedi rhewi. Mae'r gêm dydd San Steffan ble roedd Dinbych i fod i chwarae yn erbyn Rhydymwyn wedi ei chanslo gan eu bod nhw wedi tynnu allan o'r gynghrair, yn ogystal â Bodedern hefyd. Golyga hyn fod y pwyntiau a enillodd Dinbych yn erbyn y ddau dîm yma wedi eu diddymu o gyfanswm Dinbych.

Dydi'r Ail Dîm heb chwarae unrhyw gemau dros y mis diwethaf. Yn y cyfamser, fe ymddiswyddodd y rheolwr, Ethan Jones, ac mae Liam Nash wedi cymryd ei le. Mae Liam yn hogyn lleol ac wedi bod yn rhan o'r Clwb ers blynyddoedd fel chwaraewr i ddechrau, yna fel hyfforddwr  Tîm y Merched ac wrth gynorthwyo'r Tîm Cyntaf. Pob lwc i ti yn dy rôl newydd, Liam.

Nid yw'r Merched chwaith wedi cael gêm yn ystod mis Rhagfyr oherwydd y tywydd gwael. Byddent yn dechrau'r flwyddyn newydd yn y 3ydd safle yng Nghynghrair Merched Gogledd Cymru.

Oddi ar y cae mae'r criw bach o wirfoddolwyr yn edrych am fwy o wirfoddolwyr i'w helpu i redeg y Clwb. Mae ein Tîm Cyfryngau yn edrych am rywun sydd â'r gallu i ysgrifennu erthyglau dwyieithog i'n rhaglenni a'n gwefan, yn ogystal â rhywun sy'n ddigon hyderus i wneud cyhoeddiadau dwyieithog yn ein gemau. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Iwan Jones ar 07788 627819 neu Shon Powell ar 07768 383266.

**Iwan Jones**

**Siop Clwyd**
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a
Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk

# Ed Brown y Dyfarnwr Rygbi o Ddinbych

Ces fy ngeni a fy magu yng Ngellifor gan fynd i'r ysgol leol cyn mynd i Ysgol Brynhyfryd yn Rhuthun.

Roeddwn yn arfer mynd i wylio Tîm Pêl-droed Wrecsam efo nhad ond cefais fy nenu gan John Ambrose, prifathro Ysgol Brynhyfryd yn 1989, i chwarae rygbi pan oeddwn yn 11 oed a doedd dim troi nôl!

Chwaraeais fel bachwr i Ysgol Brynhyfryd gan ennill Cwpan Clwyd yn 1995 a Thîm Ysgol y Flwyddyn y Western Mail. Cynrychiolais Sir Clwyd a chwarae i dîm ieuenctid Rhuthun cyn i mi gael anaf difrifol i fy mhenglin. Stopiodd hyn rhag imi chwarae am sawl blwyddyn. Cefais fy mherswadio gan Dai Bryn Jones, Llywydd Clwb Rygbi Dinbych yn 2002 i arwyddo i Ddinbych a dwi wedi aros yn aelod o Glwb Dinbych tan heddiw gan chwarae iddyn nhw o 2002 i 2011, yn bennaf fel blaenwr – rheng flaen, ail reng neu'r rheng ôl - ble bynnag roedd yna brinder chwaraewyr.

Deuthum yn ddyfarnwr ar ôl sylweddoli nad oeddwn yn gallu cerdded yn iawn am ddyddiau ar ôl chwarae.

Soniodd fy nhad mod i bob tro'n cwyno ynglyn â dyfarnwyr felly pam na fuaswn yn ffeindio allan os gallwn neud yn well! Nes i gwblhau cwrs dyfarnwr lefel 1 yn haf 2011, cymhwyster i ddyfarnu gemau i fyny at 16 oed. Yna symud i 'Lefel 2 Galwedigaethol' a dyfarnu ail dimau oedolion a gemau ieuenctid gyda dyfarnwr ymgynghorol efo fi tan roeddwn yn gymwys i ddyfarnu ar ben fy hun.

Fy ngêm gyntaf oedd gêm trydydd tîm yr Wyddgrug yn erbyn ail dîm Bae Colwyn. Doedd tîm yr Wyddgrug ddim am adael i mi gychwyn y gêm tan roedd pawb wedi cael diod o frandi i ddathlu fy ngêm gyntaf.

Yn 2015 enillais wobr Dyfarnwr y Flwyddyn Gogledd Cymru lefel 2 a chael dyrchafiad i lefel 3 a gymhwysodd i mi ddyfarnu yn y cynghreiriaid cenedlaethol a dwi nawr wedi cyrraedd gradd perfformiad. Dyma'r ail lefel uchaf yng Nghymru ac sy'n fy nghymwyso i ddyfarnu mewn gemau lled broffesiynol. Dwi di bod yn lwcus i gael fy newis fel dyfarnwr cynorthwyol yng nghystadleuaeth y chwe gwlad dan ugain oed, yn chwe gwlad y merched ac fel pedwerydd swyddog pan chwaraeodd Cymru yr RGC yn 2017. Er hynny, uchafbwynt fy ngyrfa eleni oedd pan nes i ddyfarnu yn rownd derfynol Cystadleuaeth Genedlaethol y Bowlen yn Stadiwm y Principality o flaen miloedd o bobl ar y Dydd Sadwrn.

Y diwrnod canlynol dychwelais i'r stadiwm i wylio fy merch Seren yn ennill Ffeinal Cwpan Gogledd Cymru i Gaernarfon gyda'r ddwy gêm yn fyw ar y teledu.

Dwi nawr yn dyfarnu'r prif gemau yn Adran Un y Gogledd ac yn teithio i Dde Cymru'n rheolaidd er mwyn datblygu yn y cynghreiriau uwch. Fy nod yw torri mewn i'r bencampwriaeth a maes o law i ddyfarnu yn y Premiership – dyma'r lefel uchaf yng Nghymru ac mae yna dipyn o gystadleuaeth i ddyfarnu ynddi.

Dwi'n dipyn o ffan o Luke Pearce a Wayne Barnes fel dyfarnwyr am y ffordd maen nhw'n cadw'r gêm i symud ac yn egluro eu penderfyniadau'n glir.

Dwi'n hoffi gwylio Richie McCaw yn chwarae yn y ffordd mae'n gallu plygu'r rheolau a'i ewyllys haearnaidd a'i benderfyniad i beidio gostwng ei safonau am funud.

Er bod pwysau yn y gemau mae yna hiwmor hefyd – chwaraewyr yn meddwl eu bod wedi sgorio pan maen nhw wedi llorio'r bêl ar ochor anghywir y llinell neu pan gollodd tîm gêm bwysig oherwydd bod yr hyfforddwr oedd yn rhedeg y lein fel dyfarnwr cynorthwyol yn rhy brysur yn dilyn sgors pêl-droed ar ei ffôn ac yn methu gweld os oedd y bêl wedi mynd allan!

Un tro taflodd chwaraewr y bêl i ffwrdd a rhedeg oddi ar y cae gan ei fod yn ddyn tân ar ddyletswydd a'i 'pager' yn canu!!

**Diolch i Ed am ateb y cwestiynau a sgwennu amdano'i hun fel dyfarnwr.**


**Diolch i John Davies am baratoi'r cwestiynau.**



Ed a Gwil, y mab



Ed y dyfarnwr


MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

CRD
CLWB RYGBI DINBYCH



Gêm Wisg Ffansi Dydd San Steffan (2013)

"Mae tîm o dan 12 wedi mwynhau eu rygbi'r tymor hwn, ar ôl chwarae saith gêm, gyda dwy fuddugoliaeth. Mae 17 o chwaraewyr wedi cofrestru eleni, ac mae wedi bod yn braf croesawu tri chwaraewr newydd dros y mis diwethaf. Yn anffodus, dydyn ni ddim wedi codi 15 yr ochr ar gyfer pob gêm, ond dydy hyn ddim wedi digalonni'r bechgyn gan eu bod wedi chwarae rygbi gwych a datblygu wrth fynd yn eu blaenau. Ar ddiwedd mis Tachwedd, mi wnaethon ni gymryd rhan mewn twrnament Rownd Robin ym Mae Colwyn. Chwaraeodd y tîm yn ardderchog gan guro Nant Conwy, ond yn anffodus colli o drwch blewyn i Fae Colwyn o 12-7.'' **Osian Hedd Williams, Hyfforddwr tîm o dan 12**

****************************

Yn gynharach eleni penderfynodd y Clwb drin y tir a'r caeau yn fewnol ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth ffyddlon a gwerthfawrogol gan deulu Waterfield. I gyflawni'r trawsnewid hwn prynwyd torrwr Toro ac adeiladwyd garej addas. Ar yr un pryd buom yn ffodus i benodi Ian Endres fel ein tirmon. Daeth Ian gyda phrofiad sylweddol ar ôl bod yn dirmon i Glwb Pêl Droed Y Rhyl am flynyddoedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd y clwb yn cynnal gemau Ewropeaidd a darlledwyd llawer o'u gemau ar y teledu. Mae gan partner Ian, Denise gyswllt agos fel aelod gwerthfawr o'r Pwyllgor Gwaith ac mae eu plant Dewi a Sioned wedi chwarae i'r clwb ar lefel Mini Iau ac Ieuenctid. **Walter Roberts, Trysorydd Clwb Rygbi Dinbych**

************************

Ar brynhawn Sul, 11eg o Ragfyr cynhaliwyd twrnament pêl-rwyd 'Denbigedig' yng Nghanolfan Hamdden Dinbych. Daeth clwb pêl-rwyd, rygbi, criced, pêl-droed a hoci Dinbych at ei gilydd i chwarae yn y twrnament a chwaraewyd 13 gêm gystadleuol, gyda chwaraewyr yn trosglwyddo eu sgiliau chwaraeon i bob gêm. Roedd adrenalin yn amlwg yn ystod y ffeinal rhwng Tîm A Clwb Rygbi Dinbych a Thîm Panthers, Clwb Pêl Rwyd Dinbych, gyda phwynt yn cael ei sgorio bob munud. Llongyfarchiaau i Glwb Rygbi Dinbych ar eu buddugoliaeth, gan guro'r Panthers 4-2. Codwyd dros £680 i Fanc Bwyd Dyffryn Clwyd a hefyd cyfrannwyd dros 90kg o fwyd i Fanc Bwyd Dinbych. Mynychodd Mark Owen a Gwyn Parry, Cadeirydd a Thrysorydd Banc Bwyd Dyffryn Clwyd y digwyddiad, a dywedon "Roedd hi'n gymaint o bleser i ni fod yn y twrnament pêl-rwyd i gynrychioli'r Banc Bwyd. Bydd pob ceiniog a'r holl fwyd yn gwneud gwahaniaeth mawr i drigolion Dinbych y Nadolig hwn. Diolch i chi gyd am gefnogi'r elusen a llongyfarchiadau ar ddigwyddiad llwyddiannus" **Beth Wyn Jones – Cadeirydd Pwyllgor Cymdeithasol Clwb Rygbi Dinbych**

***********************

Bydd Clwb Rygbi Dinbych yn agor ei drysau i'r cyhoedd ar Ddydd San Steffan eleni, gyda chwaraewyr y tîm cyntaf, yr ail dîm, y Vets a'r tîm ieuenctid yn cyfuno i chwarae gêm rygbi yn eu gwisg ffansi am 1pm. Bydd y bar ar agor o 12pm, a bydd ein arlwywraig newydd, Jane Jones, yn gwerthu bwyd o gegin y Clwb i leinio'ch stumog.
Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Henllan Bakery am gyfrannu 100 o fins peis am ddim i'r digwyddiad. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn Nhŷ Clwb Jeff Jenkins ar y 27ain o Ragfyr.



TE YN Y GRUG
Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
01745 816576



Emyr Evans a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333


Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900
Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk
JCB M-Hale Massey Ferguson Fendt Pöttinger

# Clwb Rygbi Dinbych




Tîm o dan 12



Ian Endres ar dorrwr Toro newydd y Clwb



Emyr (Slotter) Thomas angen help llaw gan ei ferch, Leah Thomas i wisgo'i fib



Maes Terry Bryer




Tom Schrimshaw (Capten Clwb Criced Dinbych) yn cael trafferth mynd heibio Gwern Pierce (Clwb Rygbi Dinbych)




Gerallt Evans yn cynrychioli tîm Vets Clwb Rygbi Dinbych




Tîm A Clwb Rygbi Dinbych – Enillwyr y twrnament yn derbyn eu tlws gan Gwyn Parry a Mark Owen, Cadeirydd a Thrysorydd Banc Bwyd Dyffryn Clwyd. – Osian Hedd Williams, Gwern Pierce, Garin Roberts, Beth Mather, Gwyn Parry, Mark Owen, Tom Seddon (capten), Ryan Davenport, Harri Williams.



Diolch yn fawr i'r holl chwaraewyr o glybiau gwahanol Dinbych am gymryd rhan yn y twrnament 'Denbigedig'

# Ffair Nadolig Dinbych



Y Maer gyda Gaynor Morgan Rees



John Sellers a Magi Ann



Vera, Silvia a Ceri ar stondin Capel Pendref



Elen Wyn



Medwyn, Mary a Marjorie



Ann ac Eira a Sion Corn



Stondin Sefydliad y Merched Cangen Y Grîn



Gwyn ac Eryl



Parti carolau Ysgol Santes Ffraid



Ymweliad yr asyn



Helpwr Sion Corn



Parti carolau Ysgol Twm o'r Nant



Parti carolau Ysgol Pendref